# Adroddiad Gwaelodlin Economaidd

## Economic Baseline Report

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Awdur: Tîm Perfformiad ac Ymchwil
Cymeradwywyd gan y Cabinet: 17/03/2020
Dyddiad cyhoeddi: 17/03/2020

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 1 |
| Daearyddiaeth | 2-3 |
| Poblogaeth | 4 |
| Yr Economi | 5-9 |
| Patrymau Gwaith | 10-16 |
| Diwydiant a Galwedigaeth | 17-23 |
| Y Gymraeg | 24-26 |
| Trafnidiaeth | 27-29 |
| Seilwaith Digidol | 30-36 |
| Prisiau Tai ac Adeiladu | 44-46 |
| Ffyniant Personol | 62 |
| Iechyd a Lles | 47-54 |
| Amddifadedd | 55-59 |
| Gwledigrwydd | 60 |
| Ynni | 64-68 |
| Ôl-nodiadau | 69-70 |

# Crynodeb Gweithredol

## Cefndir

Yn ystod Rhagfyr 2019 ac Ionawr 2020, cynhaliwyd gwaith ymchwil gan Gyngor Sir Ceredigion i'r economi leol er mwyn helpu i nodi'r prif themâu a'r heriau o ran tyfu'r economi yn y dyfodol. Mae'r prif themâu sy'n codi o'r adroddiad gwaelodlin economaidd yn ymdrin ag ystod eang o ffactorau economaidd-gymdeithasol ac fe'u rhestrir isod. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio i helpu i nodi'r blaenoriaethau yn y Strategaeth Economaidd Newydd ar gyfer Ceredigion 2020-2035.

## Prif Themâu

**1 Demograffeg**
Tueddiadau poblogaeth, ac yn benodol, y gostyngiad yn y boblogaeth oedran gweithio a chynnydd yn y boblogaeth 65 +

**2 Y Gweithlu**
Cadw'r gweithlu gan gynnwys pobl iau; a lefelau cyrhaeddiad addysgol uchel

**3 Patrymau Gwaith**
Patrymau gwaith newidiol, yn benodol y cynnydd yn y rhai sy'n cymudo allan o'r sir a'r gostyngiad yn y rhai sy'n cymudo i'r sir

**4 Myfyrwyr**
Y boblogaeth myfyrwyr yn Aberystwyth a'r effaith ar yr economi leol

**5 Busnesau**
Y nifer fawr o ficro fentrau a phobl hunan-gyflogedig yn y sir, a'r hyn a elwir yn "ar goll yn y canol". Cyfraddau goroesi busnesau cryf

**6 Cysylltedd**
Yr angen parhaus i ddatblygu seilwaith digidol i gefnogi'r economi leol a mynediad i ddefnyddwyr

**7 Natur Wledig**
Heriau parhaus natur wledig y sir, yn arbennig amddifadedd mewn perthynas â mynediad at wasanaethau a thai

**8 Iaith a Diwylliant**
Mae Ceredigion yn parhau i fod yn un o gadarnleoedd diwylliant ac iaith Cymru


**9 Enillion**
Mae enillion yn y Sir yn is na'r cyfartaledd

**10 Iechyd a Lles**
Mae Ceredigion yn cael ei weld fel lle iachus, diogel a phleserus i fyw ynddo gan drigolion ac ymwelwyr

# Daearyddiaeth

Mae sir Ceredigion yn cwmpasu ardal o 1,900 km$^2$ ac mae'n cynnwys yn bennaf dir amaethyddol, rhostir agored neu goedwigaeth, gydag ardaloedd yr ucheldir i'r dwyrain yn ffurfio cyfran sylweddol o fynyddoedd Cambria. Y prif drefi yn y sir yw Aberystwyth (poblogaeth 16,200), Aberteifi (4,200), Llanbedr Pont Steffan (3,000), Llandysul (1,400), Aberaeron (1,300), a Thregaron (1,200).

**Ffigur 1: Map o Geredigion**




Mae gan y sir amrywiaeth o dirweddau a chynefinoedd naturiol, ac mae cyfran uchel o dir yn cael ei chydnabod am ei gwerth amgylcheddol drwy ddynodiadau swyddogol, gan gynnwys dau wlyptir sy'n bwysig yn rhyngwladol - Aber Afon Dyfi a Chors Caron, 14 ardal cadwraeth arbennig, tua 100 o safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig a saith o warchodfeydd natur cenedlaethol.

Yn y Gogledd, mae'r sir yn ffinio gyda Powys ac i'r de a'r dwyrain Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yn y drefn honno. Yn rhedeg o Aberteifi yn y De i Glandyfi yn y Gogledd, mae 60km o Lwybr Arfordir Cymru yng Ngheredigion, sy'n rhoi cyfleoedd hamdden i drigolion ac ymwelwyr.

Mae'r sir hefyd yn gartref i ddwy brifysgol - mae Prifysgol Aberystwyth yn darparu ar gyfer tua 8,000 o fyfyrwyr yn ystod y tymor ac mae ganddi enw da am ragoriaeth ymchwil a bodlonrwydd myfyrwyr ledled y DU. Yn y cyfamser, campws Llanbedr Pont Steffan


Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yw'r Brifysgol hynaf yng Nghymru ac mae'n gartref i gyrsiau Dyniaethau'r Brifysgol.

# Poblogaeth

## Poblogaeth

Yn ôl amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2018, 72,992 yw poblogaeth Ceredigion. Mae amryw o ffigurau yn cael eu dyfynnu yn y cyfryngau a chyhoeddiadau eraill sy'n awgrymu bod hyn yn llawer uwch, rhai mor uchel â 78,000. Fodd bynnag, ers 2008, mae'r cofnod o faint poblogaeth Ceredigion wedi gostwng yn rheolaidd, yn bennaf o ganlyniad i newidiadau ym methodoleg y Swyddfa Ystadegau Gwladol o ddyrannu ymfudwyr i ardaloedd lleol ac ail-seilio'r amcangyfrifon canol blwyddyn yn dilyn y Cyfrifiad diwethaf. Mae Ffigur 2 isod yn dangos y duedd ym mhoblogaeth Ceredigion dros y deunaw mlynedd diwethaf. Dros y cyfnod hwn, mae'r boblogaeth wedi gostwng 3.2%, tra bod poblogaeth Cymru wedi cynyddu o 7.8%. Yn achos cymdogion agosaf Ceredigion - Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Phowys - gwelwyd cynnydd yn eu poblogaethau yn ystod yr un cyfnod.


**Ffigur 2: Poblogaeth Ceredigion 2001 - 2018**




## Strwythur Oedran

Mae oedran canolrif poblogaeth y sir wedi cynyddu o 42.9 yn 2011 i 45.1 yn 2018; o gymharu, ar gyfer Cymru gyfan, mae wedi aros yn sefydlog ar 41.5. Mae poblogaeth Ceredigion yn heneiddio ac amcangyfrifir bod 24.9% o'r boblogaeth yn 2018 yn 65 oed a mwy. Dengys tueddiadau fod y boblogaeth o oedran gweithio (16-64) wedi gostwng 14% ers 2001, tra bod y boblogaeth 65+ wedi cynyddu'n sylweddol o 29.5%.

**Ffigur 3: Strwythur Oedran Ceredigion yn ôl 3 Grŵp Oedran Allweddol**




## Yr Economi

### Cynnyrch Domestig Gros

Mae cynnyrch domestic gros neu GDP yn fesur o faint ac iechyd economi dros gyfnod o amser drwy amcangyfrif gwerth popeth a gynhyrchir yn yr economi. Mae'r siart isod yn dangos y ffigurau diweddaraf[1] ar gyfer 2018, sy'n dangos bod gwerth cyffredinol economi Ceredigion yn gymharol isel, sef £1,519m o'i gymharu ag awdurdodau eraill yn Ne a Gorllewin Cymru.


**Ffigur 7: 2018 Cynnyrch Domestig Gros (GDP) ar sail prisiau cyfredol y farchnad**




Mae hyn yn nodweddiadol o lawer o ardaloedd gwledig sydd â phoblogaethau cymharol fach – mae tuedd i gyfran uchel o swyddi fod mewn twristiaeth a lletygarwch, manwerthu ac iechyd, a nifer gymharol fach o swyddi mewn gweithgynhyrchu a gwasanaethau gwerth uchel. Mae hunangyflogaeth yn elfen bwysig yn yr economi leol – mae llawer ohonynt yn ffermwyr, gydag eraill yn gweithio mewn amrywiaeth o fentrau sefydledig ar raddfa fach megis adeiladu ac atgyweirio.


Fodd bynnag, pan gaiff GDP ei gymharu fesul *y pen* o'r boblogaeth, mae'r sefyllfa'n wahanol iawn – mae £20,804 Ceredigion mewn gwirionedd yn uwch na Phowys (£19,552) a Sir Gaerfyrddin gerllaw (£19,201).

**Ffigur 8: 2018 Cynnyrch Domestig Gros y pen ar sail prisiau cyfredol y farchnad**



At hynny, mae'r tueddiadau dros y pum mlynedd diwethaf yn dangos mai yng Ngheredigion y gwelwyd y twf mwyaf o ran GDP ymhlith ei gymdogion agosaf, sef 14%.

**Ffigur 9: Canran cynnydd GDP rhwng 2014 a 2018**




## Gwerth Ychwanegol Gros

Mae Gwerth Ychwanegol Gros neu GYG yn fesur o werth nwyddau a gwasanaethau mewn ardal. Mae'n darparu gwerth am swm y nwyddau a'r gwasanaethau a gynhyrchir mewn economi ar ôl didynnu cost mewnbynnau a deunyddiau crai sydd wedi mynd i gynhyrchu'r nwyddau a'r gwasanaethau hynny. Amcangyfrifir bod maint economi leol Ceredigion yn werth ychwanegol gros (GYG) o £1,342m. Ar gyfer rhanbarth y Canolbarth a'r De-orllewin[2] amcangyfrifir ei fod yn £14, 471m ac ar gyfer Cymru mae'n £65,089m.

Mae GYG *y pen o'r boblogaeth* yn ffordd ddefnyddiol o gymharu rhanbarthau o wahanol feintiau. Gan ddefnyddio amcangyfrifon diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), mae GYG y pen o'r boblogaeth yng Ngheredigion yn 2017 yn £17,461 o'i gymharu â ffigur cenedlaethol o £19,899 y pen. Felly mae GYG y pen y sir yn 88% o gyfartaledd Cymru.

Fodd bynnag, dros y pum mlynedd diwethaf, mae GYG y pen wedi cynyddu 16.8% yng Ngheredigion o gymharu â 15.7% ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r un tueddiad i'w weld dros y tymor hir – yng Ngheredigion cynyddodd GYG 79% rhwng 1998 a 2017, sy'n uwch na'r 76% ar gyfer Cymru gyfan. Mae hyn yn awgrymu, er bod GYG y pen yn is ar gyfer Ceredigion, fod y sir wedi bod yn cau'r bwlch. Mae Tabl 1 yn dangos dadansoddiad o GYG y pen o'r boblogaeth ar gyfer Canolbarth a De-orllewin Cymru o'i gymharu â'r ffigurau cenedlaethol. (Ar adeg ysgrifennu hwn, nid oedd ffigurau 2018 wedi'u cyhoeddi).

**Tabl 1: Gwerth Ychwanegol Gros y Pen – Canolbarth a De-orllewin Cymru**

| | GYG y pen (£ ' oedd) | | | | | | % Newid | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 1998-2017 | 2012-2017 |
| Cymru | 17,204 | 17,751 | 18,127 | 18,692 | 19,368 | 19,899 | 76.3% | 15.7% |
| **Ceredigion** | **14,951** | **16,363** | **16,162** | **17,269** | **17,992** | **17,461** | **79.1%** | **16.8%** |
| Sir Gaerfyrddin | 13,081 | 14,425 | 14,781 | 15,076 | 15,834 | 15,870 | 77.2% | 21.3% |
| Sir Benfro | 18,125 | 16,039 | 16,439 | 17,382 | 17,087 | 18,427 | 73.7% | 1.8% |
| Powys | 15,863 | 16,653 | 16,687 | 17,400 | 17,759 | 17,734 | 57.3% | 11.8% |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe | 17,164 | 17,850 | 18,989 | 18,603 | 19,385 | 19,321 | 75.7% | 12.6% |
| Ceredigion % o GYG Cymru | 87% | 92% | 89% | 92% | 93% | 88% | | |

## Proffil Busnes

Mae Tabl 2 yn dangos maint proffil maint sefydliadau yng Ngheredigion a Chymru yn 2019, ac yn dangos yn glir sut y mae'r mwyafrif helaeth (92.0%) o fentrau yn y Sir yn faint 'micro', h.y. hyd at 9 o weithwyr. Mae'r ffigur hwn yn codi i 99% pan gynhwysir mentrau 'bach' o 10-49 o weithwyr, ac nid yw'n annhebyg i'r 98.3% ar gyfer Cymru gyfan. Dim ond 1% o fentrau yng Ngheredigion sydd â 50 neu fwy o weithwyr. Mae hyn wedi arwain at yr hyn a elwir yn 'ganol coll', h.y. prinder mentrau canolig a'r busnesau llai hynny sy'n ehangu i'r categori hwn.

**Tabl 2: Cyfrifiadau busnes ar gyfer Ceredigion a Chymru 2019**


| | Ceredigion (Niferoedd) | Ceredigion (%) | Cymru (Niferoedd) | Cymru (%) |
|---|---|---|---|---|
| **Mentrau** | | | | |
| Micro (0 i 9) | 3,675 | 92.0 | 92,235 | 89.1 |
| Bach (10 i 49) | 295 | 7.4 | 9,550 | 9.2 |
| Canolig (50 i 249) | 20 | 0.5 | 1,430 | 1.4 |
| Mawr (250+) | 5 | 0.1 | 315 | 0.3 |
| Cyfanswm | 3,995 | - | 103.530 | - |
| | | | | |
| **Unedau Lleol** | | | | |
| Micro (0 i 9) | 4,020 | 88.4 | 105,095 | 83.1 |
| Bach (10 i 49) | 470 | 10.3 | 17,665 | 14.0 |
| Canolig (50 i 249) | 50 | 1.1 | 3,210 | 2.5 |
| Mawr (250 +) | 10 | 0.2 | 500 | 0.4 |
| Cyfanswm | 4,550 | - | 126,470 | - |

*(Ffynonellau: Cofrestr Busnes Rhyngadrannol, ONS, 2019). Sylwer: % y gyfran o'r cyfanswm (mentrau neu unedau lleol)*

## Cyfri'r mentrau

Yn 2018 roedd 2,810 o fentrau *gweithredol* yn y Sir, yn gostwng o 2,855 yn y flwyddyn flaenorol. Fel y rhagwelwyd, mae hyn yn is na chymdogion agosaf y Sir, fel y dangosir yn Ffigur 10. Roedd 'cyfradd genedigaethau' net mentrau newydd yng Ngheredigion yn 2018 yn -25, yn is na chyfartaledd Canolbarth a De-orllewin Cymru, sef 176. Daw'r gyfradd genedigaethau net o gyfrif nifer y mentrau newydd mewn ardal namyn nifer y mentrau sy'n marw, ac fe'i defnyddir yn aml fel mesur o arloesedd a chefnogaeth i fusnesau newydd mewn ardal.


**Ffigur 10: Cyfri Mentrau Gweithredol 2018**




## Cyfraddau Busnesau yn Goroesi

Fodd bynnag, mae cyfraddau busnesau yn goroesi yng Ngheredigion yn gryf iawn a dyma un o gryfderau unigryw'r economi leol – mae'r cyfraddau goroesi ar gyfer pob hyd, fel y dangosir yn Ffigur 11, yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a'r uchaf yn genedlaethol o blith yr holl ardaloedd awdurdodau lleol. Er y gallai hyn awgrymu bod rhai mentrau yn fwy gwrth-risg na meysydd eraill, gallai hefyd fod yn adlewyrchiad o lefel y gefnogaeth a'r sefydlogrwydd i fusnesau newydd yn y Sir.

**Ffigur 11: Graddfeydd goroesi mentrau newydd**




## Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru

Nid yw nodweddion yr economi leol, fel gorddibyniaeth ar fentrau micro a bach, seilwaith a natur wledig yn unigryw i Geredigion - mae'r sir gyfagos, Powys, yn wynebu llawer o'r un heriau wrth dyfu ei heconomi leol. Er enghraifft, mae'r gyfran o fentrau micro a bach ym Mhowys yn union yr un fath â Cheredigion ar 99%, mae'r amseroedd cymudo cyfartalog ar gyfer cyflogeion ychydig yn uwch na Cheredigion, sef 22.2 km (o gymharu â 21.3 km ar gyfer Ceredigion), a dwysedd

poblogaeth y ddwy ardal yw'r isaf yng Nghymru (Powys 26 o bobl y cilomedr sgwâr a Cheredigion 41 o bobl y cilomedr sgwâr).

Mae'r nodweddion unigryw hyn a'r hyn sy'n debyg rhwng y ddwy ardal wedi bod yn gatalydd i Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, sy'n cynnwys ardaloedd Ceredigion a Phowys. Mae'r Bartneriaeth yn ceisio cynrychioli buddiannau a blaenoriaethau'r rhanbarth ar gyfer gwelliannau i economi Canolbarth Cymru, drwy adeiladu cryfderau presennol yr economi leol megis y cyfle i ehangu yn y dyfodol, datblygu seilwaith ffisegol a digidol a thwf economaidd cryfach na'r cyfartaledd dros yr ugain mlynedd diwethaf.

Mae fframwaith y Bartneriaeth ar gyfer twf economaidd ar draws y rhanbarth yn canolbwyntio ar y pum maes blaenoriaeth a amlinellir yn Nhabl 3, ynghyd â chyfres o ymyriadau i gyflawni twf economaidd a busnes ar draws y rhanbarth.

**Tabl 3: Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru 5 Maes Blaenoriaeth**

| Maes Blaenoriaeth | Ymyrraeth |
|---|---|
| Arallgyfeirio'r sylfaen economaidd | Ymyriadau i annog twf busnes a mewnfuddsoddi gan gynnwys gwell cysylltiadau ag ymchwil ac addysg |
| Cefnogi a chryfhau busnesau | sy'n bodoli eisoes drwy<br>fesurau cymorth busnes wedi'u targedu, datblygu cadwyni cyflenwi lleol a gwella cysylltedd digidol |
| Creu cyfleoedd swyddi newydd o safon | Cynyddu nifer y swyddi gwerth uchel, cystadleurwydd ac ymgysylltiad ag addysg uwch |
| Datblygu sgiliau'r gweithlu | gan wella lefelau sgiliau a'u cydweddu ag anghenion busnesau yng Nghanolbarth Cymru |
| Gwella cyfathrebu, hygyrchedd a seilwaith | Datblygu seilwaith ffisegol, gwella llif a chysylltedd trafnidiaeth, cysylltedd digidol ac adeiladu ar asedau amgylcheddol i gefnogi twf busnesau |

# Patrymau Gwaith


## Arferion Gwaith

Mae patrymau gwaith wedi bod yn newid ers blynyddoedd lawer. Cynnydd yn nifer y menywod yn y gweithlu, cyflwyno rheoliadau gweithio hyblyg ar ddechrau'r 2000au a phobl yn byw'n hirach oedd rhai o'r newidiadau a welwyd yn ystod rhan olaf yr ugeinfed ganrif ac i mewn i'r unfed ganrif ar hugain.

## Cymudo


Mae nifer y bobl sy'n cymudo ***o'r sir*** wedi cynyddu'n gyson dros y pum mlynedd diwethaf ac wedi cynyddu 28.1% ers 2015 yn unig. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i wahaniaeth o 900 ac mae'r nifer wedi cyrraedd ei ffigur uchaf ar unrhyw adeg yn ystod y degawd diwethaf, gweler y siart isod.

**Ffigur 12: Nifer y bobl sy'n cymudo y tu allan i'r ardal**




Ar y llaw arall, gwelwyd y duedd gyferbyniol yn y rhai sy'n cymudo i'r ardal, lle mae'r niferoedd wedi bod yn gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rhwng 2015 a 2018 roedd gostyngiad o 39.7% a gostyngiad o 12.8% rhwng 2017 a 2018 yn unig, gweler y siart isod. Mae hyn yn amlwg yn rhan o duedd tymor hwy sydd â goblygiadau i'r economi, ac un o'r rhain yw cadw'r gweithlu a'r sgiliau sydd ganddynt.


**Ffigur 13: Nifer y bobl sy'n cymudo i'r ardal**



Yn y cyd-destun ehangach, mae Sir Gaerfyrddin wedi gweld tueddiad tebyg i Geredigion lle mae nifer y cymudwyr sy'n teithio y tu allan i'r sir wedi cynyddu a'r rhai sy'n teithio i mewn wedi gostwng. Yn y cyfamser, mae Powys a Sir Benfro ill dau wedi gweld tueddiadau i'r gwrthwyneb yn eu siroedd, gyda chynnydd yn y niferoedd sy'n teithio i'r sir a gostyngiad yn nifer y bobl sy'n cymudo oddi yno. Mae'n ymddangos yn eithaf rhesymegol bod cysylltiad rhwng ffawd gwrthgyferbyniol y siroedd hyn ac mae'n un esboniad posibl ynghylch ble mae'r cynnydd mewn cymudo allan o Geredigion yn mynd. Cefnogir hyn yn arbennig gan gynnydd mewn swyddi gweithwyr yn ardaloedd Powys a Sir Benfro rhwng 2017 a 2018, tra arhosodd y nifer yng Ngheredigion yn sefydlog.

Mae'r pellteroedd sy'n cael eu teithio i'r gwaith yn seiliedig ar gyfrifiad 2011, ond gan ddefnyddio hyn fel llinell sylfaen gallwn weld bod cymudwyr yng Ngheredigion yn teithio 21.3 km ar gyfartaledd i weithio, sef y trydydd pellter cymudo uchaf yng Nghymru. Mae hyn yn fwyaf tebygol oherwydd natur wledig fawr y sir ynghyd â'i dwysedd poblogaeth isel iawn. Fel y rhagwelwyd, Powys oedd â'r pellteroedd cymudo hiraf am yr un rhesymau â Cheredigion, ac yna Sir Fynwy, mae'n debyg oherwydd ei lleoliad yn agos at y ddwy bont Hafren a bod gweithwyr yn cael eu denu i swyddi mewn lleoliadau yn Lloegr.

**Ffigur 14: Pellter teithio i'r gwaith ar gyfartaledd (km)**




## Enillion


Mae dadansoddi enillion yn rhoi peth tystiolaeth i gefnogi'r dybiaeth bod rhywfaint o weithlu Ceredigion yn cymudo allan o'r sir i swyddi â chyflog uwch mewn siroedd cyfagos. Gwyddom o'r Arolwg Blynyddol diweddaraf o Oriau ac Enillion 2019 fod enillion blynyddol cyfartalog yn is yng Ngheredigion nag ar draws Cymru, ac ar wahân i Bowys, hefyd yn is na gweddill Canolbarth a De-orllewin Cymru. Er enghraifft, mae Tabl 3 yn dangos bod yr enillion blynyddol cyfartalog ar gyfer y rhai sy'n byw yng Ngheredigion yn £24,126, dros £2,000 yn llai na'r £26,267 ledled Cymru.

**Tabl 4: Enillion Blynyddol Cyfartalog**

| Ardal | Yn ôl lle gwaith | Yn ôl man preswylio |
|---|---|---|
| **Ceredigion** | **£21,687** | **£24,126** |
| Sir Gaerfyrddin | £25,248 | £26,568 |
| Sir Benfro | £24,302 | £24,886 |
| Powys | £23,075 | £24,001 |
| Abertawe | £23,945 | £25,029 |
| Merthyr Tudful | £24,072 | £26,553 |
| Cymru | £25,714 | £26,267 |
| Y DU | £30,629 | £30,629 |
| **Ceredigion fel % o'r Enillion yng Nghymru** | **84%** | **92%** |

At hynny, mae gwahaniaeth amlwg iawn hefyd rhwng enillion yn ôl man *preswylio* a lle *gwaith*. Yn ôl preswylfan, h.y. y rhai sy'n byw yng Ngheredigion ond nad ydynt o reidrwydd yn gweithio yn y sir, y cyfartaledd enillion blynyddol yw £24,126, ond pan maen nhw wedi'u grwpio yn ôl lle gwaith, h.y. y rhai sy'n gweithio yng Ngheredigion ond nad ydynt o anghenraid yn byw yn y sir, mae'r ffigur yn gostwng i ddim ond £21,687. Mae hyn yn dangos, ar gyfartaledd, bod enillion yn uwch i'r rhai sy'n byw yng Ngheredigion ond sy'n gweithio y tu allan i'r sir, o gymharu â'r rhai sy'n byw yng Ngheredigion ac yn gweithio yn y sir.

Ffigur 15: Enillion blynyddol cyfartalog yn ôl lleoliad gwaith a phreswylfan




Mae Ffigur 15 yn dangos y gwahaniaeth hwn o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol. Fel crynodeb defnyddiol, mae enillion yn ôl lle gwaith yng Ngheredigion yn 84% o gyfartaledd Cymru, ond mae hyn yn codi i 92% yn ôl man preswylio. Mae'r rhesymau pam y mae rhai preswylwyr yn dewis gadael ardal fel arfer yn cynnwys ystod fwy cymhleth o amgylchiadau nag enillion yn unig, ac mae hwn yn bwnc sy'n cael ei archwilio'n fanylach o dan Iechyd a Lles. Fodd bynnag, mae enillion is yng Ngheredigion yn thema sy'n ailymddangos mewn unrhyw ddadansoddiad o'r economi leol ac yn un o'r heriau mwyaf sylweddol y mae'n eu hwynebu.

## Enillion yn erbyn Incwm


Ni ddylid drysu enillion gydag *incwm yr aelwyd*, sy'n fesur defnyddiol arall o ffyniant. Mae incwm yr aelwyd yn cynnwys yr holl incwm ar gyfer aelwyd, gan gynnwys yr incwm a ddaw o bensiynau a buddsoddiadau eraill, ac nid cyflogau yn unig. Archwilir hyn yn fanylach o dan Ffyniant Personol. Er bod incwm y cartref yn cyflwyno argraff fwy cadarnhaol o ffyniant personol yng Ngheredigion nag enillion yn unig, hyd yn oed wedyn mae cyfanswm incwm y cartref yng Ngheredigion (£27,754) yn dal i fod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (£27,962) ac yn amlwg yn is na chyfartaledd y DU yn gyffredinol (£31,979)[3].

## Effaith y rhai sy'n ennill cyflogau uwch

Gall nifer y gweithwyr sy'n ennill cyflog uwch mewn unrhyw ardal gamliwio enillion cyfartalog a chyflwyno darlun afrealistig o enillion ar gyfer y rhan fwyaf o weithwyr. Mae hwn yn gwestiwn sy'n codi'n aml mewn perthynas â'r economi leol yng Ngheredigion, lle mae niferoedd uwch yn cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus - ym mis Mehefin 2019 roedd 33% o weithwyr yng Ngheredigion yn gweithio mewn addysg, iechyd dynol a gwaith cymdeithasol, neu weinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn/nawdd cymdeithasol gorfodol.

Gwyddom o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2019 (ASHE), fod y 75ain canradd ar gyfer cyflog gros blynyddol yng Ngheredigion yn £31,940 – yn syml, mae hyn yn golygu bod gan 75% o'r swyddi yng Ngheredigion dâl gros blynyddol o £31,940 neu lai, ond i Gymru mae'r ffigur hwn lawer yn uwch ar £34,508. Ac eithrio Powys, mae hefyd yn is na'r awdurdodau eraill yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru (Ffigur 16).

**Ffigur 16: Enillion yn ôl 75fed, 60fed and 30ain canradd**





At hynny, mae hefyd yn dangos bod gan 60% o'r swyddi yng Ngheredigion dâl gros blynyddol o £24,887 neu lai, a bod gan 30% gyflog gros blynyddol o £14,529 neu lai, ac mae'r ddau yma'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Gall dadansoddi enillion yn y modd hwn helpu i roi darlun mwy realistig o enillion y mwyafrif yn hytrach na dibynnu ar gyfartaleddau yn unig.

## Cyrchfan cymudwyr

Mae amcangyfrifon gan yr ONS yn awgrymu bod y mwyafrif, 56% neu 1,900 o'r rheiny sy'n cymudo allan o'r sir yn teithio dros y ffin ddeheuol i Sir Gaerfyrddin, ond nid yw'n bosibl nodi eu hunion gyrchfan. Amcangyfrifir bod 21% arall neu tua 700 yn croesi'r ffin dde-ddwyreiniol i Sir Benfro a chymaint â 24% (800) yn cymudo cyn belled â Lloegr. (Oherwydd bod y data'n ddadlennol neu ddim yn ddigon cadarn i gael eu cyhoeddi, nid yw'n hysbys faint sy'n teithio i mewn i Bowys).

**Ffigur 17: Cyrchfan cymudwyr allan o Geredigion 2018**





## Gweithio Gartref

Mae gweithio gartref yn ffenomen a enillodd boblogrwydd yn rhan olaf yr ugeinfed ganrif, gyda'r data diweddaraf yn awgrymu bod cynifer â 64,000 o bobl yn gweithio gartref yng Nghymru ar

ddiwedd 2018, yn dyblu'r ffigur ddeng mlynedd yn gynharach. Yn anffodus nid yw'r data hwn ar gael ar lefel sirol, ond rydym yn gwybod o Gyfrifiad 2011 bod tua 17.3% o weithlu Ceredigion yn gweithio'n bennaf o gartref, a fyddai'n cyfateb i tua 6,200 o bobl. Yn debyg i'r pellteroedd a deithiwyd, Powys a Sir Fynwy oedd â'r cyfraddau uchaf o weithwyr cartref, gan awgrymu cysylltiad cryf iawn rhwng pellteroedd a deithiwyd a gweithio o gartref.

**Ffigur 18: Canran gweithwyr cartref**




## Menywod yn y Gweithlu


Mae cynrychiolaeth menywod yn y llafurlu yn cynyddu'n raddol – heddiw yng Nghymru, mae mwy na dwy ran o dair (72.5%) o fenywod 16-64 oed yn economaidd weithgar a 69.9% yn cael eu cyflogi, a'r olaf yw'r ganran uchaf ar gofnod. Yng Ngheredigion, mae'r gyfran a oedd yn economaidd weithgar wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf gan godi o ddim ond 59.1% yn 2012 i uchafbwynt o 72.7% ar ddechrau 2018. Ers hynny, bu gostyngiad ac mae'r ffigur ar hyn o bryd yn 66.5% ar Fehefin 2019, gweler Tabl 5.

**Tabl 5: Menywod sy'n economaidd weithgar**

| | Ceredigion | Cymru |
|---|---|---|
| Yn economaidd weithgar | 66.5% | 72.5% |
| Mewn cyflogaeth | 65.6% | 69.9% |

Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i newidiadau mewn patrymau gwaith, lle y mae gan fenywod blant yn llai aml ac yn ddiweddarach mewn bywyd. Maen nhw'n llawer llai tebygol o adael y farchnad lafur tua adeg eu plentyn cyntaf ac maen nhw'n llawer mwy tebygol o aros mewn gwaith am dâl yn y blynyddoedd dilynol. Ledled Cymru yn gyffredinol, mae'r cynnydd yn nifer y menywod sy'n economaidd weithgar ac yn gyflogedig wedi bod yn fwy sefydlog, gweler Ffigur 19.

**Ffigur 19: % Menywod sy'n economaidd weithgar**




## Diffinio gweithgarwch economaidd a chyfraddau cyflogaeth

Mae'r termau "yn economaidd weithgar" a "mewn cyflogaeth" yn ymddangos cryn dipyn mewn ystadegau economaidd ond nid ydynt bob amser yn cael eu deall, sy'n gallu arwain at ddryswch wrth ddadansoddi data. Caiff **yn economaidd weithgar** ei ddiffinio fel pobl sydd naill ai mewn cyflogaeth neu'n ddi-waith. Y *gyfradd gweithgarwch economaidd* yw canran y boblogaeth sy'n economaidd weithgar. Mae **mewn cyflogaeth** yn cyfeirio at y bobl hynny a wnaeth rywfaint o waith â thâl yn ystod y cyfnod a ddadansoddwyd, boed fel gweithiwr neu'n hunangyflogedig, y rhai a oedd â swydd oedd i ffwrdd ohoni dros dro, megis eu bod ar wyliau, y rhai oedd yn dilyn hyfforddiant a rhaglenni cyflogaeth a gefnogwyd gan y Llywodraeth a'r rhai a oedd yn gwneud gwaith teuluol di-dâl. Y gyfradd gyflogaeth yw canran y boblogaeth mewn cyflogaeth sydd o oedran gweithio (16-64).[4]

## Cyflogaeth yn ôl Diwydiant

Cynhelir arolwg busnes blynyddol a elwir yn Arolwg y Gofrestr Busnes a Chyflogaeth (BRES) gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n casglu gwybodaeth am gyflogaeth. Y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael yw 2018 (gweler Tabl 6).

Mae gan economi Ceredigion gyfran gyfrannol o swyddi yn y diwydiant cyfanwerthu a manwerthu, y gwasanaethau llety a bwyd, y sectorau addysg, iechyd a thwristiaeth. O'r 30,900 o bobl mewn cyflogaeth o fewn Ceredigion (2018), amcangyfrifir bod 74.4% (23,000) yn cael eu cyflogi yn y sectorau gwasanaeth (Dosbarthiadau Diwydiannol Safonol F-R yn y tabl isod), 12.9% (4,000) yn y diwydiant twristiaeth, mae 9.7% (3,000) yn cael eu cyflogi yn y diwydiannau gweithgynhyrchu ac adeiladu (Dosbarthiadau Diwydiannol Safonol B-E yn y tabl isod), a chyflogir y 4.5% (1,400) sy'n weddill yn y diwydiant Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota.

**Tabl 6: Nifer a chanran y swyddi gweithwyr yn ôl grŵp diwydiant yng Ngheredigion, 2018. (Ffynhonnell: yr ONS 2019).**

| Cyflogaeth yn ôl grŵp diwydiant bras | Ceredigion (Nifer) | Ceredigion (%) |
|---|---|---|
| Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota (diwydiant adran A) | 1,400 | 4.5% |
| Adeiladu (B) | 1,400 | 4.5% |
| Gweithgynhyrchu (C) | 1,300 | 4.2% |
| Cyflenwad trydan, nwy ac aerdymheru (D) | 100 | 0.3% |
| Cyflenwad dŵr; carthffosiaeth, rheoli gwastraff a gweithgareddau adfer (E) | 200 | 0.6% |
| Masnach cyfanwerthu a manwerthu (F) | 4,000 | 12.9% |
| Cludo a storio (G) | 600 | 1.9% |
| Gweithgareddau llety a gwasanaethau bwyd (H) | 3,500 | 11.3% |
| Gwybodaeth a chyfathrebu (I) | 200 | 0.6% |
| Gweithgareddau ariannol ac yswiriant (J) | 200 | 0.6% |
| Gweithgareddau eiddo tiriog (K) | 500 | 1.6% |
| Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (L) | 1,600 | 5.2% |
| Gweithgareddau gweinyddol a gwasanaeth cymorth (c) | 700 | 2.3% |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol gorfodol (N) | 2,100 | 6.8% |
| Addysg (O) | 4,300 | 13.9% |
| Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol (P) | 3,800 | 12.3% |
| Y celfyddydau ac adloniant a hamdden (Q) | 700 | 2.3% |
| Gweithgareddau gwasanaeth eraill (R) | 600 | 1.9% |
| Gweithgareddau twristiaeth (S) | 4,000 | 12.9% |

Mae'r strwythur cyflogaeth hwn yn weddol nodweddiadol o economi wledig, sy'n dilyn tueddiadau cenedlaethol i raddau helaeth. Mae Defra (2018) wedi nodi mai'r sectorau addysg ac iechyd yw'r rhai mwyaf o ran gwerth ychwanegol gros (GYG) mewn ardaloedd gwledig yn bennaf, yn ogystal â chyfran uchel o fentrau sy'n ymwneud â thwristiaeth.

Fel arfer, y sector masnach cyfanwerthu a manwerthu sy'n cyflogi'r gyfran fwyaf mewn ardaloedd trefol a gwledig. Mae cyfran y gweithwyr yn y sector amaethyddol yng Ngheredigion yn is nag economi wledig nodweddiadol. Fodd bynnag, mae yna ostyngiad yn y gweithlu amaethyddol yn genedlaethol ac mae cyn-Gyfarwyddwr y Ganolfan Economi Wledig, wedi disgrifio sut mae'r gostyngiad hwn wedi digwydd ar yr un pryd â thwf mewn diwydiannau sy'n seiliedig ar wybodaeth[5]. Y diwydiant adeiladu fel arfer sydd mewn 11% o unedau lleol busnesau cofrestredig mewn ardaloedd gwledig (Defra, 2018). Mae'r ffigur hwn yn sylweddol is ar gyfer Ceredigion (sef 4.5%). Yn anecdotaidd, mae gan y sir brinder gweithwyr adeiladu. Fodd bynnag, nid yw'r ffenomen hon yn unigryw i Geredigion. Yn genedlaethol, mae prinder sylweddol o ran sgiliau'r diwydiant adeiladu; Nododd arolwg diweddaraf Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr (FBM) fod prinder sgiliau yn parhau i fod yn sylweddol, gyda 64% o gyflogwyr adeiladu yn cael cryn drafferth i logi bricwyr yn 2019 (FBM, 2019).

## Cyflogaeth yn ôl galwedigaeth

Mae dadansoddi cyflogaeth yn ôl galwedigaeth gan ddefnyddio'r amcangyfrifon diweddaraf sy'n seiliedig ar breswylwyr (cyfnod o 12 mis yn diweddu Mehefin 2019) o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (gweler Tabl 7) yn dangos rhywfaint o amrywiant ym marchnadoedd llafur Ceredigion o gymharu â'r hyn a geir mewn ardal wledig nodweddiadol. Canfu astudiaethau gan Defra yn 2013 a'r Comisiwn Cymunedau Gwledig 2010 fod marchnadoedd llafur ardaloedd gwledig yn tueddu i fod â chronfa lafur gyfyngedig i fanteisio arni, bod cyflogwyr yn llai tebygol o recriwtio graddedigion, a bod galwedigaethau gwybodaeth-ddwys fel arfer wedi'u tangynrychioli.

Fodd bynnag, nid yw'r duedd hon mor glir yng Ngheredigion, sydd â chyfran uchel yn gyfrannol o alwedigaethau proffesiynol (17%) a chyfran ychydig yn uwch o alwedigaethau fel rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r grwpiau galwedigaethol hyn yn cael eu hystyried fel y rhai sydd angen y lefel uchaf o sgiliau. Mae'r ystadegau hyn yn dangos amrywiaeth ardaloedd gwledig.

**Tabl 7: Cyflogaeth yn ôl poblogaeth sy'n arddangos y nifer a chanran yng Ngheredigion o'r flwyddyn yn diweddu Mehefin 2019 (Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, yr ONS, 2019).**

| | Ceredigion (Nifer) | Ceredigion (%) | Cymru (%) |
|---|---|---|---|
| Rheolwyr, Cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion | 3,400 | 10.0 | 9.7 |
| Galwedigaethau proffesiynol | 5,800 | 17.0 | 18.8 |
| Galwedigaethau proffesiynol cyswllt a thechnegol | 4,000 | 11.7 | 13.8 |
| Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol | 3,200 | 9.4 | 9.4 |
| Galwedigaethau crefftau medrus | 6,400 | 18.8 | 11.7 |
| Galwedigaethau gofal, hamdden a gwasanaethau eraill | 3,200 | 9.4 | 10.4 |
| Galwedigaethau gwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid | 2,500 | 7.3 | 8.0 |
| Gweithredwyr prosesau, offer a pheiriannau | 1,200 | 3.5 | 7.1 |
| Galwedigaethau elfennol | 4,400 | 12.9 | 10.8 |

## Cymwysterau yn y Gweithlu

Yn gysylltiedig â ffyniant personol mae lefel y cymwysterau yn y gweithlu, sy'n faes lle mae Ceredigion wedi bod yn uchel ei barch ers tro am ei lefelau cyrhaeddiad cadarn. Mae'r data


diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod cyfran y boblogaeth o oedran gweithio sy'n cyflawni NVQ Lefel 2 yn amlwg uwchlaw'r ffigurau cenedlaethol ar gyfer Cymru a Phrydain i gyd ar 78.7%.

| **Tabl 8: Cymwysterau yng ngweithlu Ceredigion 2018** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Ceredigion** | **Cymru** | **Prydain Fawr** |
| | *(%)* | *(%)* | *(%)* |
| NVQ4 ac uwch | 35.1 | 35.4 | 39.3 |
| NVQ3 ac uwch | 60.8 | 55.1 | 57.8 |
| NVQ2 ac uwch | 78.7 | 74.0 | 74.9 |
| NVQ1 ac uwch | 86.9 | 84.9 | 85.4 |
| Cymwysterau eraill | 6.8 | 6.5 | 6.8 |
| Dim cymwysterau | 6.3 | 8.6 | 7.8 |

Diffinnir NVQ Lefel 2 fel 5 TGAU graddau A i C ac fe'i hystyrir yn aml yn garreg filltir mewn cyrhaeddiad addysgol. Mae'r categori hwn yn cynnwys cymwysterau cyfwerth fel BTEC a Diplomâu Uwch. Mae'r un tueddiad i'w weld ar y cymwysterau NVQ Lefel 3 uwch, lle mae 60.8% yng Ngheredigion eto'n uwch o dipyn na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 55.1% yn unig. Mae NVQ Lefel 3 yn Safon Uwch a chymwysterau cyfwerth, fel Diplomâu Uwch a chymwysterau Cenedlaethol BTEC.

Ar y cyfan, mae cyrhaeddiad addysgol yn parhau i fod yn un o gryfderau unigryw'r sir o safbwynt ffyniant economaidd a phersonol. Cafwyd cyfnod cryf o welliant mewn lefelau cyrhaeddiad ar draws y sir ers 2008, er bod y duedd hon yn cael ei hailadrodd i raddau helaeth ar draws y genedl gyfan. Fodd bynnag, yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r gwelliannau ar y lefelau NVQ is 1-2 yng Ngheredigion wedi lefelu a gostwng ychydig, tra bod twf ar lefelau uwch 3 a 4 NVQ yn parhau.


**Ffigur 20: Cymwysterau yng ngweithlu Ceredigion: Lefelau 1-4**



## Dim cymwysterau ffurfiol

O'u hystyried yn erbyn y gyfran o boblogaeth Ceredigion sydd heb unrhyw gymwysterau ffurfiol, mae'r lefelau cyrhaeddiad cryf yn dod yn fwy amlwg - dim ond 6.3% sydd heb unrhyw gymwysterau, o'i gymharu â 8.6% yn genedlaethol. Er gwaethaf cynnydd rhwng 2016 a 2017, mae'r tueddiad cyffredinol wedi dangos gostyngiad dramatig o uchafbwynt o 12% yn 2005 i 6.3% yn y ffigurau diweddaraf ar gyfer 2018.

**Ffigur 21: Cyfran o boblogaeth Ceredigion sydd heb gymwysterau ffurfiol 2004 hyd 2018**




Y cymwysterau lefel uchaf, NVQ Lefel 4, yw'r unig gategori lle mae Ceredigion islaw'r cyfartaledd - 35.1% yng Ngheredigion o'i gymharu â 35.4% ar gyfer y wlad gyfan. Diffinnir NVQ Lefel 4 fel lefel gradd a chyfwerth, megis HND a chymwysterau proffesiynol BTEC. Mae hyn wedi arwain at dybio bod rhai trigolion yn dewis gadael yr ardal er mwyn datblygu eu gyrfa mewn man arall. Er enghraifft, mae gan Gaerdydd, Sir Fynwy a Bro Morgannwg boblogaeth llawer uwch na'r cyfartaledd sydd â chymwysterau NVQ Lefelau 3 a 4, ac mae incwm aelwydydd yn uwch yn unol â hynny.


Fodd bynnag, nid yw'r penderfyniad i adael ardal yn debygol o fod yn seiliedig ar incwm yr aelwyd yn unig. Mae ychydig yn fwy cymhleth ac yn fwy tebygol o fod yn gyfuniad o ffactorau gan gynnwys argaeledd cyflogaeth, y math o gyflogaeth sydd ar gael ac agweddau mwy goddrychol megis yr amgylchedd a'r gweithgareddau cymdeithasol sydd ar gael, a dyna pam mae yna waith ansoddol yn cael ei wneud i baratoi ar gyfer y Strategaeth Economaidd newydd sy'n ceisio deall y cwestiynau parhaus hyn.

## Niferoedd Myfyrwyr

Mae myfyrwyr yn chwarae rhan fawr yn y Sir, o safbwynt addysgol ac economaidd. Mae gan Brifysgol Aberystwyth, er enghraifft, dros 8,000 o fyfyrwyr sef 11.2% o boblogaeth y Sir. Ond er iddi

gael ei henwi yn Brifysgol y flwyddyn yng Nghymru ar gyfer 2020 gan gyrraedd y lefelau bodlonrwydd myfyrwyr uchaf yn gyson ledled Cymru a Lloegr, mae nifer y myfyrwyr yn gostwng (gweler Ffigur 22).

**Ffigur 22: Nifer Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth**





Nid ffenomen newydd yw hon, fodd bynnag - mae pryderon ynghylch effaith ffioedd dysgu wedi cael cryn sylw yn y cyfryngau ers dros ddeng mlynedd. Yn ystod y cyfnod o bedair blynedd rhwng 2014/15 a 2017/18, gostyngodd nifer y myfyrwyr yn Aberystwyth o 1,650 sy'n cyfateb i ostyngiad o 16.8%. Mae'r un duedd i'w gweld ar draws Cymru ond i raddau llai - gostyngodd nifer y myfyrwyr o 2.5% neu 3,400 dros yr un cyfnod. Mae hyn yn cuddio'r ffaith bod nifer o Brifysgolion yng Nghymru wedi gweld cynnydd yn eu niferoedd - mae Abertawe yn arbennig wedi gweld cynnydd sylweddol o 27.4%, yn bennaf o ganlyniad i Gampws newydd ardal y Bae. Gellir gweld dadansoddiad fesul sefydliad yn Nhabl 9.

**Tabl 9: Nifer a chanran y newid mewn myfyrwyr addysg uwch yng Nghymru yn ôl sefydliad**

| Sefydliad | O 2014/15 hyd 2017/18 | | O 2016/17 hyd 2017/18 | |
|---|---|---|---|---|
| | **# gwahaniaeth** | **% gwahaniaeth** | **# gwahaniaeth** | **% gwahaniaeth** |
| **Prifysgol Aberystwyth** | -1650 | -16.8% | -270 | -3.2% |
| **Prifysgol Bangor** | 390 | 3.6% | -115 | -1.0% |
| **Prifysgol Caerdydd** | 1455 | 4.8% | 340 | 1.1% |
| **Prifysgol Metropolitan Caerdydd** | -3235 | -23.7% | -560 | -5.1% |
| **Prifysgol Glyndŵr** | -1020 | -15.1% | -670 | -10.4% |
| **Y Brifysgol Agored** | -380 | -5.2% | 25 | 0.4% |
| **Prifysgol Abertawe** | 4395 | 27.4% | 1,255 | 6.6% |
| **Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant** | -145 | -1.4% | 525 | 5.4% |
| **Prifysgol De Cymru** | -4850 | -17.5% | 605 | -2.6% |

Mae'r tueddiad ychydig yn wahanol ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant gyda'i chyrsiau dyniaethau yn cael eu dysgu ar gampws Llanbedr Pont Steffan. Er bod gostyngiad bach o 1.4% yn nifer y myfyrwyr rhwng 2014/15 a 2017/18, mae'r duedd tymor byr rhwng 2016/17 a 2017/18 yn dangos cynnydd o 5.4% (Ffigur 23). Mae cyfran fach o'r rhain (3.5% neu 360)[6] wedi'u lleoli ar gampws Llanbedr Pont Steffan.


**Ffigur 23: Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant - Nifer y myfyrwyr Prifysgol**




## Bodlonrwydd Myfyrwyr

Mae Prifysgol Aberystwyth yn parhau i fod yn gynnig atyniadol iawn i ddarpar fyfyrwyr o safbwynt cymdeithasol ac addysgol – am y pedair blynedd olynol ddiwethaf, bu'n safle rhif 1 yn genedlaethol ledled Cymru a Lloegr yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, a dyfarnwyd "Aur" iddi yn Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Chanlyniadau Myfyrwyr 2018. O ystyried pa mor atyniadol yw Prifysgol Aberystwyth, mae'r rhesymau dros y gostyngiad yn nifer y myfyrwyr yn fwy tebygol o fod yn rhai anacademaidd, megis cynnydd mewn ffioedd dysgu neu gostau byw.

**Ffigur 24: Graddfa bodlonrwydd cyffredinol myfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth**





## Gwariant Myfyrwyr

Mae pennu gwerth effaith y gostyngiad yn helpu i ddangos yr effaith ehangach ar yr economi leol. Canfu ymchwil yn 2019 a gynhaliwyd gan "Save The Student" fod myfyrwyr Prifysgol, ar gyfartaledd, yn gwario £807 y mis[7], gan gynnwys rhent. Gan ddefnyddio hwn fel llinell sylfaen, byddai'r gostyngiad yn nifer myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth dros y pedair blynedd diwethaf yn gyfwerth â £1.3m yn llai y mis yn cylchredeg yn yr economi leol a £218k yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig. Wrth gwrs, mae'r gost o fyw yng nghefn gwlad gorllewin Cymru yn wahanol

iawn i'r cytrefi mawr yn ne'r wlad, ond hyd yn oed wedyn, byddai effaith ariannol 1,650 yn llai o fyfyrwyr yn parhau i fod yn fwy na £1m y mis[8].

**Ffigur 25: Gostyngiad yn nifer myfyrwyr y Brifysgol 2014/15 i 2017/18**





Yn y cyd-destun ehangach, mae'r gostyngiad yn nifer y myfyrwyr ledled Cymru yn cyfateb i 3,400 yn llai o fyfyrwyr, a £6.6m yn llai yn cylchredeg bob mis rhwng 2014/15 a 2017/18. Mae'r sefyllfa ychydig yn wahanol ar draws y DU yn gyffredinol, lle mae nifer y myfyrwyr wedi cynyddu 1.1% dros yr un cyfnod.

# Y Gymraeg

Mae medru'r Gymraeg yn un nodwedd a ystyrir yn aml o safbwynt daearyddol. Mae *Strategaeth Gorfforaethol* y Cyngor Sir yn gosod y mandad i'r Sir barhau'n "gartref bywiog ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig". O'r cyfrifiad yn ôl yn 2011 gwyddom fod 47.3% o boblogaeth Ceredigion yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, a'r ffigur hwn a ddyfynnir yn aml yn y cyfryngau ac mewn cyhoeddiadau swyddogol.


Fodd bynnag, ategir y ffigurau hyn drwy'r arolwg blynyddol o'r boblogaeth, ac mae'r canlyniadau diweddaraf yn darparu tystiolaeth gref sy'n awgrymu bod y Sir yn parhau i fod yn un o gadarnleoedd y Gymraeg. Dros y chwe blynedd diwethaf, mae cyfran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu'n gyson bob blwyddyn, gan godi o 52.7% yn 2014 i bron 60% erbyn 2019, gweler Ffigur 26.

**Ffigur 26: Canran y bobl yng Ngheredigion sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg (Mehefin 2019)**




O ystyried y cymhlethdod a'r ymrwymiad cymharol sy'n ofynnol wrth ddysgu iaith newydd, mae'r cynnydd hwn o 7% yn sylweddol, yn enwedig o'i gymharu â'r darlun cenedlaethol lle mae'r ffigur yn cynyddu ond ar gyfradd arafach – dros yr un cyfnod roedd y gyfran a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg ar draws y genedl gyfan wedi cyrraedd ychydig dan 30% erbyn 2019. Gweler Ffigur 27.


**Ffigur 27: Canran y bobl yng Ngheredigion sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg o gymharu â Chymru (Mehefin 2019)**




Ategir y ffigurau hyn gan ddata'r Cyngor ei hun, lle y caiff y Gymraeg ei chynnwys fel rhan o'r cwestiynau demograffig safonol yn ei hymarferiadau ymgynghori â'r cyhoedd. Er enghraifft, datgelodd ymarferiad Her y Gyllideb 2019 fod gan 63% o ymatebwyr rai sgiliau yn y Gymraeg, cynnydd yr un mor amlwg ar y 56% a gofnodwyd yn yr ymarfer blaenorol yn 2015.


Gwyddom hefyd o'r Cyfrifiad diwethaf ar gyfer Ceredigion mai yn y grwpiau oedran iau mae'r gyfran fwyaf o siaradwyr Cymraeg – dros dri chwarter (78.4%) o blith y rheiny sy'n 3-15 oed.

**Ffigur 28: Canran y bobl yng Ngheredigion sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn ôl grwpiau oedran (Cyfrifiad 2011)**




Ategir hyn gan ddata ar y darlun cenedlaethol, sy'n dangos ar draws y wlad bod y rheiny sy'n 3-15 oed yn fwy na dwywaith yn fwy tebygol o siarad Cymraeg na'r rhai o oedran gweithio (16-64), er bod y ffigurau, fel cynt, yn is ar gyfer y genedl gyfan nag yng Ngheredigion yn unig. Amcangyfrifir bod nifer wirioneddol y siaradwyr Cymraeg yn 874,000 ledled Cymru.

**Ffigur 29: Canran poblogaeth Cymru sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn ôl grwpiau oedran (Mehefin 2019)**




Er bod y dystiolaeth yn awgrymu bod y cymorth sydd ar gael i siaradwyr newydd yn dda, os bydd Strategaeth Economaidd y dyfodol yn arwain at fewnfudo o ganlyniad i greu swyddi, adleoli busnesau a busnesau newydd, yna mae'n bosibl y byddai cynnydd mewn siaradwyr di-Gymraeg a gallai hynny greu galw am gymorth ychwanegol.

## Trafnidiaeth yng Nghymru Wledig

Mae trafnidiaeth yn chwarae rhan ganolog mewn sawl agwedd ar fywyd bob dydd. Mae'n darparu mynediad at gyfleoedd gwaith, gweithgareddau hamdden a chymdeithasol, yn ogystal â darparu mynediad at wasanaethau hanfodol fel addysg ac iechyd. At hynny, mae trafnidiaeth yn cysylltu busnesau â'u cwsmeriaid a'u cyflenwyr, sy'n hanfodol ar gyfer ffyniant economaidd. Mae ansawdd gwael, neu ddiffyg trafnidiaeth wledig wedi'i nodi fel achos sy'n cyfrannu at dlodi gwledig yng Nghymru neu 'dlodi mynediad' (Powell et al. 2018).

## Ffyrdd

Mae gan Geredigion dair prif ffordd "A" sy'n cysylltu'r sir â Phowys, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro (gweler Ffigur 30).




**Ffigur 30: Map o seilwaith ffyrdd, rheilffyrdd, meysydd awyr a phorthladdoedd allweddol yng Nghymru. (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru)**

Yr A44 sy'n dod i mewn o'r dwyrain (Llangurig, Powys i Aberystwyth, Ceredigion) yw'r brif ffordd dros fynyddoedd Cambria i mewn i Geredigion, gan gysylltu'r sir â Phowys a llwybrau pellach ar draws y ffin i Swydd Amwythig, Lloegr. Mae'r A487 yn ymestyn ar hyd arfordir Ceredigion, gan gysylltu gogledd a de'r sir. Yr A485 sy'n arwain o'r M4 yn Sir Gaerfyrddin, ac sy'n cysylltu Caerfyrddin â Llanbedr Pont Steffan a Dyffryn Teifi.

Nid oes gan y sir draffordd, yr agosaf yw'r M4 yn Sir Gaerfyrddin, sydd tua 64.2 km o ganol Ceredigion, ac sy'n cymryd tuag awr a chwarter mewn car. Dim ond canran fechan o ffyrdd y sir

yw ffyrdd A yng Ngheredigion (12%). Y mathau mwyaf cyffredin o ffyrdd yw'r ffyrdd B ac C, sef 51.5% o'r mathau o ffyrdd yng Ngheredigion.

**Tabl 10: Hyd y ffyrdd (km a chanran), yn ôl y math o ffordd yng Ngheredigion, 2018-2019.** *(Ffynhonnell: Casglu data ar hyd ffyrdd, Llywodraeth Cymru, 2019)*

| | Ceredigion (km) | Ceredigion (%) |
|---|---|---|
| **Traffordd** | 0 | 0 |
| **Ffordd A (Sirol)** | 158.3 | 7.0 |
| **Ffordd A (Cefnffordd)** | 114.1 | 5.0 |
| **Ffordd B** | 325 | 14.3 |
| **Ffordd C** | 841.6 | 37.2 |
| **Ffyrdd B ac C** | 1166.6 | 51.5 |
| **Is-ffyrdd ag wyneb caled** | 826.1 | 36.5 |
| **Cyfanswm** | 2265.1 | 100 |

## Meysydd awyr

Nifer cymharol fach o feysydd awyr domestig sydd gan Gymru a dim ond un maes awyr rhyngwladol; Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd. O ganol Ceredigion, mae Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd tua 160km i ffwrdd ac yn cymryd mwy na dwy awr mewn car, mwy na phum awr ar drên o Aberystwyth, a mwy na saith awr ar fws. Mae maes awyr Caerdydd yn tueddu i fod ag ystod lai o gyrchfannau teithio ac am gost uwch na meysydd awyr eraill. Mae hyn yn golygu bod cysylltiadau trafnidiaeth â phrif feysydd awyr yn Lloegr (Manceinion, Lerpwl a Birmingham) yn bwysig ar gyfer cysylltedd Ceredigion.

Mae Maes Awyr Gorllewin Cymru wedi'i leoli yn Aberporth yng Ngheredigion, tua 1.5 milltir o arfordir Gorllewin Cymru. Mae'n agored i ymwelwyr hedfan cyffredinol sy'n gallu ei ddefnyddio ar gyfer busnes, ac mae'n cael ei ddefnyddio gan y lluoedd arfog hefyd. Canolfan awyrennau di-griw'r maes awyr yw'r unig gyfleuster o'i fath yn Ewrop.

## Porthladdoedd

Mae gan Gymru sawl porthladd sy'n cysylltu Gweriniaeth Iwerddon, y DU a thir mawr Ewrop. Mae porthladdoedd wedi'u lleoli yn Aberdaugleddau, Casnewydd, Port Talbot, Abergwaun, Caergybi, Mostyn, Castell-nedd, Caerdydd, y Barri ac Abertawe. Y porthladd agosaf i Geredigion yw Abergwaun (Sir Benfro), tua 97km o ganol Ceredigion.

## Rheilffordd

Mae prif orsaf reilffordd Ceredigion yn Aberystwyth gyda threnau'n rhedeg drwy Borth ac yna i Fachynlleth (Powys). Fe'i gwasanaethir gan drenau teithwyr a weithredir gan Trafnidiaeth Cymru a dyma orsaf derfynol rheilffordd y Cambrian. Mae trenau'n rhedeg o Aberystwyth i ganolbarth Lloegr a Llundain drwy Fachynlleth ac Amwythig. Felly, mae rheilffordd Aberystwyth yn wasanaeth hanfodol bwysig wrth gysylltu gogledd Ceredigion â'i chymdogion ac ar draws y ffin i Loegr.

## Teithio ar Fws neu mewn Car

Mae rhwydwaith gwasanaethau bysiau Ceredigion yn cysylltu pob prif dref a'r rhan fwyaf o bentrefi. Cwmnïau sector preifat sy'n darparu bysiau a choetsys yn bennaf. Mae cysylltiadau bws TrawsCymru yn darparu gwasanaeth teithio pellter hir i Dde Cymru (o Gaerdydd, Abertawe a Hwlffordd) ac i Ogledd Cymru (Bangor a Wrecsam). Mae'r gwasanaeth Megabus yn teithio ymhellach i ffwrdd, gan gysylltu Aberystwyth, a Llanbedr Pont Steffan ag Abertawe, Caerdydd a Llundain. Fodd bynnag, oherwydd natur wasgaredig aneddiadau a mesurau cyni sy'n achosi toriadau difrifol i drafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig (Powell et al. 2018), mae trafnidiaeth gyhoeddus Ceredigion yn tueddu i fod yn gyfyngedig o ran cwmpas ac amseroedd gweithredu. Oherwydd bod setliadau'n wasgaredig, mae teithio mewn car o amgylch Ceredigion yn llawer mwy cyfleus na defnyddio cludiant cyhoeddus, oherwydd mewn rhai achosion mae'r siwrnai'n ôl yn cymryd chwe gwaith yn hwy ar fws cyhoeddus. Felly, nid yw'n syndod mai'r math amlycaf o deithio ar draws Ceredigion yw'r car preifat. Ar gyfer rhai grwpiau (y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf gwledig), y car yn aml yw'r unig ffordd realistig o deithio.


# Seilwaith Digidol

## Yr economi ddigidol

Mae rôl gynyddol masnach ddigidol yn weladwy iawn mewn cymdeithas – cyrhaeddodd gwerth gwerthiant e-fasnach yn sector anariannol y DU £688 biliwn yn 2018[9], cynnydd o 18% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, y cynnydd blynyddol uchaf ers dechrau cadw cofnodion cymaradwy yn 2014. Mae'r twf hwn wedi cael ei lywio i raddau helaeth gan gynnydd o £138 biliwn mewn gwerthiannau trwy wefannau ers 2014[10], ac mae'r duedd hon yn debygol o barhau. Wrth gwrs, ceir effaith gyfatebol ar y stryd fawr lle mae llawer o fanwerthwyr 'brics a morter' wedi cau neu arallgyfeirio, ac sy'n newid tirwedd y stryd fawr.

Ond mae'r economi ddigidol yn ymwneud â mwy na manwerthu'n unig - mae darparu gwasanaethau hefyd yn newid ac felly hefyd y sianelau a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaethau hynny i'r cwsmer, a bancio ac yswiriant yw'r enghraifft orau o hyn yn ôl pob tebyg. Mae'r un lefel o dwf i'w gweld yng Nghymru lle'r oedd trosiant cwmnïau technoleg ddigidol Cymru yn fwy nag £1 biliwn am y tro cyntaf yn 2019, gyda thros 3,600 o gwmnïau technoleg ddigidol yn cyflogi 45,000 o weithwyr[11]. Gweler Ffigur 31. Mor bell yn ôl â 2016, roedd y BBC yn adrodd mai Cymru oedd â'r economi ddigidol a oedd yn tyfu gyflymaf y tu allan i Lundain, yn seiliedig ar nifer y mentrau digidol newydd[12].

**Ffigur 31: Gwerth yr economi ddigidol yng Nghymru 2019**




Fodd bynnag, dim ond drwy'r seilwaith sy'n ei chynnal y mae'r twf yn yr "economi ddigidol", fel y'i gelwir, yn bosibl. Cadarnhaodd ymchwil a wnaed ar ran Ofcom, y rheoleiddiwr cyfathrebu, y berthynas gadarnhaol rhwng buddsoddiad mewn band eang a thwf economaidd – roedd eu hastudiaeth dros gyfnod o bymtheg mlynedd hyd at 2016 yn dangos sut yr arweiniodd mabwysiadu band eang at gynnydd o 0.37% mewn GDP y flwyddyn neu 5.5% dros gyfnod yr astudiaeth[13].

## Beth yw seilwaith digidol?

Agwedd amlycaf seilwaith digidol yw argaeledd ffonau symudol a sefydlog a band eang, ond mae hefyd yn cynnwys technolegau sy'n seiliedig ar leoliad megis GIS, seilwaith rhwydwaith a chanolfannau data. Mae Tabl 11 yn diffinio'r gwahanol fathau o fand eang sydd ar gael, ac mae Tabl 12 drosodd yn diffinio'r gwahanol fathau o wasanaethau symudol.

**Tabl 11: Diffiniadau o gyflymder band eang**

| Math o fand eang | Diffiniad |
|---|---|
| **Safonol** | Mae cyflymder band eang safonol yn cyfeirio at y cyflymder uchaf a ragwelir o unrhyw ISPs mawr ar gyfer pecynnau hyd at 30 Mbit/s. |
| **Cyflym iawn** | Mae rhagfynegiadau band eang cyflym iawn yn cyfeirio at y cyflymder uchaf a ragwelir o unrhyw ISPs mawr ar gyfer pecynnau rhwng 30 a 300 Mbit/s. |

| | |
|---|---|
| **Gwibgyswllt** | Mae rhagfynegiadau cyflymder band eang gwibgyswllt yn cyfeirio at y cyflymder rhagweledig uchaf o unrhyw ISPs mawr ar gyfer pecynnau dros 300 Mbit/s |

**Tabl 12: Diffiniadau o wasanaethau symudol**


| Math o wasanaeth symudol | Diffiniad |
|---|---|
| **2G** | Mae rhwydweithiau 2G yn cefnogi galwadau llais, negeseuon testun a chysylltiadau data cyflymder isel iawn. Mae pob ffôn symudol yn gallu cysylltu â rhwydweithiau 2G. |
| **3G** | Mae rhwydweithiau 3G yn cefnogi galwadau llais, negeseuon testun a band eang symudol. Mae'r rhan fwyaf o ffonau yn cefnogi cysylltiadau 3G, ond nid yw rhai ffonau hŷn a ffonau sylfaenol iawn yn gwneud. Pan nad yw'r signal 3G ar gael, bydd y ffonau'n ceisio cysylltu â'r rhwydwaith 2G, os oes un ar gael iddynt. |
| **4G** | Mae gwasanaethau 4G yn ei gwneud yn llawer cyflymach syrffio'r we ar eich ffonau symudol, tabledi a gliniaduron. Oherwydd hyn, mae 4G yn ddelfrydol ar gyfer gwasanaethau sydd angen mwy o gapasiti fel gwefannau ffrydio fideo, mapio a rhwydweithio cymdeithasol. Ar gyfer y defnyddiwr nodweddiadol, gallai cyflymder lawrlwytho o rwydweithiau 4G cychwynnol fod tua 5-7 gwaith yn gynt na'r rhwydweithiau 3G presennol. |

Mewn ardaloedd gwledig sy'n aml yn anghysbell, fel rhannau helaeth o Geredigion a rhannau o Ganolbarth / De-orllewin Cymru, mae gwella gwasanaethau band eang a thechnoleg sy'n seiliedig ar leoliad yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau. Er gwaethaf canfyddiadau o gysylltedd yng Ngheredigion, mae argaeledd a chyflymder seilwaith digidol wedi gwella'n fawr yng Ngheredigion yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae heriau'n parhau, wrth reswm, o ran datblygu'r gwasanaethau hynny ymhellach fel yr amlinellwyd yn adroddiadau *Cysylltu'r Gwledydd Cymru* ar gyfer 2018 a 2019[14] sy'n tynnu sylw at Geredigion wrth amlygu'r anawsterau penodol o ran darparu gwasanaethau i ardaloedd gwledig iawn a phrin eu poblogaeth.

## Band eang sefydlog

Mae'r data diweddaraf gan Ofcom yn herio rhai o'r rhagdybiaethau am gysylltedd digidol yng Ngheredigion - er bod heriau o ran gwella argaeledd band eang mewn ardaloedd gwledig a phrin eu poblogaeth, nid yw'r ddarpariaeth bresennol yn wael o bell ffordd. Er enghraifft, mae Ffigur 32 yn dangos argaeledd gwahanol fathau o fand eang yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru o'i gymharu â'r meincnod cenedlaethol[15].


Ffigur 32: Argaeledd Band eang yn ôl math




Mae'n dangos bod argaeledd *band eang cyflym iawn* i adeiladau yng Ngheredigion yn 60.6%, sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer De a Gorllewin Cymru (57.4%) a dim ond ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan (62.6%). Mae argaeledd *band eang gwibgyswllt* yng Ngheredigion (20%) yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (30.5%) ond dipyn yn uwch na'n cymdogion agosaf yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Phowys. Er syndod efallai, mae argaeledd *band eang ffeibr llawn*, y dechnoleg band eang gyflymaf a mwyaf dibynadwy, yn 20% yng Ngheredigion sy'n uwch na rhanbarth Canolbarth/De-orllewin Cymru (8.8%), cyfartaledd Cymru (7.5%) a'r cyfartaledd ar gyfer y DU gyfan (7.1%).

Er gwaethaf hyn, mae cyfran gyffredinol yr adeiladau yng Ngheredigion nad ydynt yn gallu derbyn cyflymderau band eang 2, 5, 10 a 30Mbit/s yn parhau'n uwch na gweddill Canolbarth a De-orllewin Cymru, ac eithrio Powys drws nesaf (gweler Ffigur 33). Amcangyfrifir nad yw bron 20% yn gallu derbyn cyflymder o 30Mbit/s yng Ngheredigion, o gymharu â 11.8% yn rhanbarth Canolbarth/De-orllewin Cymru.

Ffigur 33: Adeiladau nad ydynt yn medru derbyn gwahanol fathau o fand eang




Fodd bynnag, mae hon yn duedd a ragwelwyd ac y tynnwyd sylw ati yn adroddiad Cysylltu'r Gwledydd Cymru 2019[16], sy'n nodi mai Ceredigion sydd â'r gyfran uchaf ond un o adeiladau yng Nghymru nad ydynt yn gallu cael gwasanaethau o 10mbit/s neu fwy, sef 12%, sy'n cyfateb i tua 4,500 o adeiladau. Cynhyrchir y ffigurau hyn gan etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru felly nid yw'n bosibl cymharu ardaloedd awdurdodau lleol, ond nid yw'n syndod mai Brycheiniog a Sir Faesyfed oedd â'r canlyniad uchaf o 14%.

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael gan Ofcom yn awgrymu nad cysylltu Ceredigion yw'r her wirioneddol i Geredigion, ond *cynyddu* cysylltedd presennol drwy gael mwy o fynediad at y gwasanaethau band eang cyflymach. Mae Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion yn cefnogi hyn drwy bwysleisio'r angen i "ddatblygu a chynnal mynediad cyffredinol i'r sianelau digidol diweddaraf i ddinasyddion a chwsmeriaid"[17]. Dengys Ffigur 34 argaeledd band eang ar hyn o bryd ledled Ceredigion. Gellir gweld yn glir bod band eang cyflym iawn a band eang gwibgyswllt wedi'i glystyru o amgylch prif drefi'r sir.

Ffigur 34: Argaeledd band eang ar draws Ceredigion




## Signal ffonau symudol


Mae tueddiad tebyg i'w weld mewn signal ffonau symudol, lle mae data gan Ofcom unwaith eto yn dangos darlun mwy cadarnhaol o'r ddarpariaeth yn y sir nag y gellid ei ddisgwyl ar yr olwg gyntaf. Er enghraifft, mae Ffigur 35 yn dangos map signal ar gyfer gwasanaethau 4G awyr agored ar gyfer y prif gwmni sy’n gweithredu yn yr ardal, EE, sy'n dangos bod mwyafrif y sir yn "debygol o gael darpariaeth dda”. Mae rhai pocedi i'r gogledd ac ar y ffin ddwyreiniol lle bydd defnyddwyr "yn profi rhai problemau o bosib”. Yn debyg i dechnoleg band eang, mae buddsoddiad mewn cyfathrebu symudol hefyd wedi bod yn datblygu yn y sir - gosodwyd gorsafoedd trawsdderbynnydd newydd gan EE ym 2018 i wella'r ddarpariaeth yn rhai o'r "ardaloedd digyswllt" hysbys gan gynnwys Capel Dewi yn y gogledd a Phontsian yn y de.

Ffigur 35: Gwasanaeth ffôn symudol llais yn yr awyr agored 4G EE





Fodd bynnag, o'i gymharu â siroedd eraill yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, mae argaeledd gwasanaethau 3G a 4G yng Ngheredigion yn parhau'n isel, gweler Ffigurau 36 a 37. Mae darpariaeth 3G yr holl weithredwyr yn cyrraedd 80.2% o adeiladau yng Ngheredigion, yr isaf yn y rhanbarth, ac mae'r un peth yn wir am 4G lle mae'r ddarpariaeth yn 81.5%. Ledled Cymru yn gyffredinol, mae gwasanaethau 3G ar gael mewn 94% o adeiladau a darpariaeth 4G mewn 92%

Ffigur 36: Canran adeiladau sydd â Gwasanaeth Ffôn Symudol 3G
(yn seiliedig ar signal awyr agored gan yr holl weithredwyr)



Ffigur 37: Canran adeiladau sydd â darpariaeth Gwasanaethau Ffôn Symudol 4G (yn seiliedig ar signal awyr agored n gan yr holl weithredwyr)




Yn debyg i fand eang, mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan Ofcom yn awgrymu mai'r her yng Ngheredigion yw parhau i ehangu darpariaeth y dechnoleg symudol ddiweddaraf. Rydym yn gwybod bod angen buddsoddiad sylweddol ymlaen llaw a pharhaus er mwyn cynnal a chadw ac uwchraddio'r seilwaith ffisegol. Gwelir hyn gyda rhwydweithiau pŵer a ffyrdd ac mae'r un peth yn wir ar gyfer seilwaith cyfathrebu, lloeren a chyfrifiadura pŵer uchel. Mae hefyd yn hanfodol i yrwyr rheoleiddiol gymell buddsoddiad sy'n cael ei dargedu'n dda. Bydd y rhaglen Rhwydwaith Gwledig a Rennir sy'n werth £530m sy'n cael ei negodi rhwng y gweithredwyr a'r Llywodraeth yn ceisio ymestyn cwmpas pob gweithredwr ymhell y tu hwnt i'r terfynau presennol a bydd yn cael effaith sylweddol ar bob ardal yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru. Wrth gwrs, bydd y galw gan unigolion a busnesau yn parhau i dyfu, gan bwysleisio ymhellach yr her o ran datblygu seilwaith digidol yn y rhanbarth.

## Prisiau tai a'r economi


Ni fyddai unrhyw ddadansoddiad o'r economi leol yn gyflawn heb gyfeirio at gryfder y farchnad dai, gan ei fod wedi'i hen sefydlu bod prisiau tai'n effeithio ar yr economi'n gyffredinol. Mae cynnydd ym mhrisiau tai, er enghraifft, yn annog gwariant gan ddefnyddwyr ac yn arwain at dwf economaidd uwch yn gyffredinol. Ar y llaw arall, mae gostyngiad sydyn mewn prisiau tai yn cael effaith andwyol ar hyder defnyddwyr, adeiladu ac yn arwain at lai o dwf economaidd. Ynghyd â dirywiad economaidd ar ddiwedd degawd cynta'r ganrif hon a chyflwyno mesurau cyni ar ddechrau'r ddegawd wedyn, bu'n gyfnod cythryblus i brisiau tai. Ond sut mae hynny wedi amlygu ei hun yn y farchnad dai leol?

Mae prisiau tai a rhenti yn gyffredinol yn ddrutach yn nhref Aberystwyth a'r cyffiniau o gymharu ag ardaloedd eraill y sir, o ganlyniad i alw a throsiant uwch ar y cyfan, yn ogystal ag effeithiau penodol sy'n gysylltiedig â'r farchnad dai ar gyfer myfyrwyr addysg. Mewn mannau eraill, mae costau tai yn tueddu i fod yn uwch yn yr ardaloedd arfordirol na lleoliadau mewndirol.

## Prisiau tai cyfartalog a'r gyfradd twf

Mae Ffigur 38 yn dangos prisiau tai cyfartalog yn ôl awdurdod lleol ar gyfer Cymru a hefyd y cyfraddau twf yng Ngheredigion a'r awdurdodau lleol cyfagos. Ar draws Cymru cynyddodd prisiau tai 2.6% i £164,000 yn y flwyddyn hyd at fis Medi 2019, i lawr o 5% yn y flwyddyn hyd at Awst 2019. Perfformiodd y rhanbarth yn well na'r DU yn ei chyfanrwydd, a welodd werth cyfartalog eiddo yn cynyddu o 1.3% yn flynyddol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae prisiau tai wedi codi ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Yng Nghonwy a Sir Benfro y gwelwyd y twf cryfaf, gan godi 7.9% i £172,000 yng Nghonwy a 7.8% i £182,000 yn Sir Benfro yn y flwyddyn hyd at fis Medi 2019. Yng Ngheredigion y gwelwyd yr wythfed cynnydd mwyaf mewn prisiau tai yn awdurdodau Cymru dros y 12 mis diwethaf, gyda phrisiau tai yn codi 5% o £183,203 ym Medi 2018 i £192,346 ym Medi 2019.


Ffigur 38: Prisiau tai cyfartalog a chyfradd twf yn ôl awdurdod lleol ar gyfer Cymru yn y flwyddyn hyd at fis Medi 2019 (Ffynhonnell: Cofrestrfa Tir EM, 2019).




Dangosir tueddiadau prisiau tai cyfartalog ar gyfer Canolbarth/Gorllewin Cymru (2005-2019) yn Ffigur 39. Cynyddodd y cyfartaledd yng Ngheredigion fymryn rhwng 2005-2008, o £161,000 i £172,000, cyn gostwng i tua £162,000 yn 2009, adferiad byr yn 2010-2011, yna gostyngiad pellach yn ystod 2012-2013, ond mae prisiau tai wedi codi'n raddol dros y chwe blynedd canlynol i tua £180,000.

Mae hyn yn adlewyrchu'r duedd gyffredinol ym mhrisiau tai ledled Cymru yn gyffredinol, er bod Ceredigion (a Phowys yn fwy diweddar) wedi aros tua 20-40% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn gyson. Bydd perchennog cartref cyffredin yng Ngheredigion wedi gweld gwerth ei eiddo'n neidio tua £24,000 dros y 14 mlynedd diwethaf.

Ffigur 39: Prisiau tai cyfartalog ar gyfer Canolbarth/Gorllewin Cymru 2005-2019, gan gynnwys cyfartaledd Cymru mewn punnoedd (Ffynhonnell: Yn deillio o'r ONS, 2019).





## Beth sy'n gyrru'r cynnydd?

Yn genedlaethol, gellid priodoli'r cynnydd mewn prisiau tai i'r cyfraddau llog cymharol isel sydd ar hyn o bryd yn agos at eu lefel isaf erioed, a'r tangyflenwad parhaus o gartrefi (yn enwedig cartrefi fforddiadwy). Yn ogystal â'r tueddiadau cenedlaethol hynny, gellid priodoli pris cyson uchel eiddo Ceredigion hefyd i ddymunoldeb yr ardaloedd fel lleoliad gwledig deniadol i fyw ynddo. Er enghraifft, mae prisiau tai cyfartalog ger yr arfordir (e.e. Aberaeron) yn tueddu i fod 38% yn uwch (£249,890 yn 2019) na chyfartaledd Ceredigion.[18]

## Anheddau newydd

Nifer yr anheddau newydd sydd wedi eu hadeiladu yng Ngheredigion yw'r isaf allan o bedwar awdurdod lleol Canolbarth a Gorllewin Cymru dros y cyfnod o saith mlynedd (2012-2019) (Ffigur 40). Mae'r nifer wedi amrywio dros y blynyddoedd gyda'r nifer isaf yn 2015-2016 sef 88, a'r lefel uchaf yn 2016-2017, sef 195. Mae nifer yr anheddau newydd sy'n cael eu hadeiladu yn ymddangos yn isel. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried bod nifer o geisiadau cynllunio yng Ngheredigion yn estyniadau i dai, ac nid yn adeiladau newydd. At hynny, mae llawer (tua 1000) o anheddau yng Ngheredigion yn wag ar hyn o bryd. Yn anecdotaidd, mae rhai pryderon ynghylch cost adeiladu cartrefi newydd yn y sir, oherwydd maint cymharol fach y sector adeiladu a nifer uchel y busnesau micro/bach yn y farchnad.


**Ffigur 40: Anheddau newydd yng Nghanolbarth/Gorllewin Cymru o 2013-19**
(Ffynhonnell: Yn deillio o'r ONS, 2019)




## Ffyniant aelwydydd

Mae Ffigur 41 yn dangos y cyflog gros blynyddol ar gyfer yr holl swyddi yng Ngheredigion a Chymru. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae enillion preswyl Ceredigion ar y cyfan wedi cynyddu 13.7% o £18,900 yn 2014 i £21,500 yn 2019, gyda mymryn o ostyngiad mewn enillion yn ystod 2017 fodd bynnag. Gallai'r gostyngiad hwn mewn enillion yng Ngheredigion gael ei briodoli i'r diswyddiadau a wnaed gan Brifysgol Aberystwyth yn 2017 (gyda'r nod o arbed £11m[19]) a allai fod wedi effeithio ar yr economi leol. Mae'r cynnydd cyffredinol yn cyd-fynd â'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae tâl gros blynyddol Ceredigion wedi parhau tua 16% yn is na Chymru yn gyffredinol yn gyson. Mae'r tâl gros blynyddol cymedrig ar gyfer pob gweithiwr yng Nghymru yn 2019 (£25,714) yn sylweddol is na chyfartaledd y DU, sef £30,629 yn 2019 (ONS, 2019).[20]


**Ffgur 41: Tâl blynyddol gros ar gyfer pob swydd gyflogedig ar sail preswylfan ar gyfer Ceredigion a Chymru**



## Fforddiadwyedd

Gellir mesur fforddiadwyedd gan ddefnyddio cymhareb prisiau tai i enillion. Mae cymhareb uwch yn dangos ei bod yn llai fforddiadwy i breswylydd brynu tŷ ac i'r gwrthwyneb, mae cymhareb is yn dynodi fforddiadwyedd uwch mewn awdurdod lleol. Mae Ffigur 42 yn dangos y gymhareb fforddiadwyedd yn seiliedig ar weithle ar gyfer prisiau tai ac incymau y chwartel isaf a chanolrifol yng Ngheredigion.

**Ffigur 42: Cymhareb prisiau tai i enillion sy'n seiliedig ar weithle ar gyfer incwm canolrifol a'r chwartel isaf (Ffynhonnell: ONS, 2019)**




Gostyngodd fforddiadwyedd rhwng 2005 a 2007, gan gyrraedd ei lefel isaf yn 2007. O 2007 ymlaen, mae eiddo wedi dod yn raddol fwy fforddiadwy. Yn gyffredinol mae hyn yn dilyn y tueddiadau mewn prisiau tai yng Ngheredigion (gweler Ffigur 39) a chyflog gros blynyddol (gweler Ffigur 41), gyda'r cynnydd mewn tâl gros blynyddol yn fwy yn gyfrannol na'r cynnydd mewn prisiau tai.


Fodd bynnag, er bod eiddo'n dod yn raddol fwy fforddiadwy, mae'r cymarebau hyn yn dal i ddangos problemau fforddiadwyedd yng Ngheredigion. Mae astudiaethau a gynhaliwyd gan Opinion Research Services (2004, 2008, 2015) ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion wedi diffinio'r materion hyn ymhellach, gan nodi ôl-groniad o aelwydydd y mae angen tai arnynt, ac angen parhaus am dai, yn bennaf oherwydd problemau fforddiadwyedd ac anallu aelwydydd i ymuno â'r farchnad dai ar lefel y pris neu'r rhent.

## Fforddiadwyedd tai yn Aberystwyth

Aberystwyth yw prif dref y sir oherwydd ei rôl sylweddol fel canolfan ranbarthol. Mae gan y dref nodweddion penodol o ran tai oherwydd y nifer sylweddol o fyfyrwyr mewn addysg uwch yn ystod y tymor, y mae eu hanghenion tai yn tueddu i fod yn dra gwahanol i rai gweddill y boblogaeth. Mae gwerthoedd rhent yn sylweddol uwch na'r hyn a welir yn yr ardaloedd cyfagos a hefyd yn amrywio rhwng ardaloedd gwahanol o'r dref, gyda phremiymau yn cael eu gosod ar ardaloedd sy'n agos at ganol y dref.  Mae'r prisiau rhent cymharol uchel hyn yn Aberystwyth yn ei

gwneud yn anodd i'r rhai sy'n chwilio am waith yn yr ardal, i ymgartrefu a dod o hyd i dai fforddiadwy i'w rhentu.

**Ffigur 42: Crynodeb Rhenti'r Farchnad - Prisiau rhent cyfartalog a chanolrifol**





Mae Ffigur 42 yn dangos y prisiau cyfartalog a chanolrif fesul mis calendr ar gyfer eiddo rhent mewn pum tref ddewisedig ledled Cymru[21]. O Ionawr 2020, o'r pum ardal, Bangor sydd â'r sector rhentu drutaf gyda'r pris rhent cyfartalog yn £1,366 fesul mis calendr, gydag Aberystwyth yn ail agos, gyda phris rhent cyfartalog o £1,072 fesul mis calendr. Mae'n ddrutach o lawer rhentu eiddo yn Aberystwyth nag ydyw yn Abertawe, Wrecsam a Chaerfyrddin. Ar gyfartaledd, mae eiddo i'w rentu yn Aberystwyth yn costio £220 yn fwy y mis na'r rhai yn Abertawe a £477 yn fwy y mis na'r rhai yn nhref fawr y sir gyfagos, Caerfyrddin.

**Tabl 14: Rhenti eiddo yn Aberystwyth yn ôl math**

| | Nifer yr eiddo | Rhent cyfartalog | Rhent canolrifol |
|---|---|---|---|
| Ystafell | 35 | £393 | £325 |
| Fflat | 99 | £825 | £650 |
| Tŷ | 121 | £1,446 | £1,473 |

Mae Tabl 14 yn dangos nifer yr eiddo yn Aberystwyth ar y farchnad rentu yn ôl y math o eiddo[22]. Mae cyfran uwch o dai ar gael i'w rhentu, o'i gymharu ag ystafelloedd a fflatiau. At hynny, mae gan 37% (neu 98) o'r eiddo sydd ar y farchnad yn Aberystwyth ar hyn o bryd fwy na phum ystafell wely, gyda rhai mor fawr â phedair ar ddeg o ystafelloedd gwely. Gellid priodoli'r gyfran uchel hon i'r gorgyflenwad o dai mwy/tai amlfeddiannaeth (HMOs) oherwydd y twf mewn llety sy'n eiddo i'r brifysgol a gostyngiad yn nifer y myfyrwyr. Mae newidiadau blynyddol yn niferoedd a nifer y myfyrwyr a'r oedi mewn llety prifysgol yn cael effaith uniongyrchol ac anrhagweladwy yn aml ar y galw am dai, sy'n gwneud amcanestyniadau a chynllunio'n anodd.

**Ffigur 43: Rhenti cyfartalog eiddo yn ôl nifer yr ystafelloedd gwely**




Mae Ffigur 43 yn dangos rhenti cyfartalog eiddo bob mis yn ôl nifer yr ystafelloedd gwely fesul eiddo yn y pum ardal ac mae'n cynnwys y cyfartaledd cenedlaethol [23]. Ar gyfer pob eiddo (1-4 ystafell wely) yn Aberystwyth, mae'r pris rhent cyfartalog yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. O'r pum ardal, Aberystwyth yw'r ardal ddrutaf ond un ar gyfartaledd i rentu eiddo un, tair a phedair ystafell wely. Mae'r pris rhent cyfartalog ar gyfer eiddo un ystafell wely yn costio £525 fesul mis calendr, sydd dim ond tua 10% yn is y mis na rhentu eiddo un ystafell wely yn yr ail ddinas fwyaf yng Nghymru (Abertawe). Mae'n rhatach rhentu eiddo dwy ystafell wely yn Aberystwyth o'i gymharu ag Abertawe a Bangor, fodd bynnag, mae prisiau ar gyfartaledd yn dal yn uchel, sef £677 y mis, sydd 27% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (£533 fesul mis calendr).

Mae Strategaeth Tai Lleol Ceredigion[24], "Tai i Bawb 2018-2023" yn nodi'n fanwl yr heriau hirdymor o ran tai sy'n wynebu Ceredigion, gan gynnwys mater fforddiadwyedd, ynghyd â'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma a'i nod yw hyrwyddo'r help a'r cymorth sydd ar gael i ddinasyddion i fynd i'r afael â'u hanghenion tai penodol. Mae'r strategaeth ar gael yn: https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/tai/strategaeth-dai/

## Yn gryno


Yn ystod y pedair blynedd ar ddeg ddiwethaf mae prisiau tai Ceredigion wedi adlewyrchu'r tueddiadau cyffredinol ar draws Cymru gyfan. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwn, mae prisiau tai Ceredigion wedi aros tua 20-40% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn gyson. Mae'r prisiau uwch hyn yn gysylltiedig â'r ffaith bod Ceredigion yn cael ei ystyried fel lle dymunol i fyw ynddo, ac mae codiadau o'r fath mewn prisiau wedi cyfrannu at ôl-groniad o angen am dai a diffyg cyflenwad o gartrefi (yn arbennig o gartrefi fforddiadwy). Er bod cyflog gros blynyddol Ceredigion ar gyfer yr holl swyddi gweithwyr cyflogedig yn cynyddu, mae'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac yn sylweddol is na chyfartaledd y DU. Er bod eiddo, ar y cyfan, yn dod yn fwy fforddiadwy yng Ngheredigion, mae fforddiadwyedd yn dal i fod yn faen tramgwydd ar gyfer pobl ar incwm isel.

## Incwm aelwydydd

Yn ei ystyr symlaf, gellir mesur "ffyniant personol" yn ôl cyflogau ac incwm aelwydydd, a dyma'r lle mwyaf rhesymegol i ddechrau, yn enwedig gan fod yna ddyfalu y bydd pobl o oedran gweithio, yn enwedig y grwpiau oedran iau sy'n dechrau yn eu gyrfaoedd, yn cael eu denu gan dynfa cyflogau uwch a chyfleoedd gyrfaol yn yr ardaloedd trefol mwy yn Ne a Gogledd Cymru.


Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dangos y gallai fod rhywfaint o wirionedd i'r dybiaeth honno. Fel y rhagwelwyd, mae incwm aelwydydd yng Nghymru, ac yn arbennig y Gymru wledig, yn amlwg yn is na'r Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd, gweler Ffigur 44. Mae canolrif incwm aelwydydd yng Ngheredigion yn £27,754 o'i gymharu â £27,962 ledled Cymru a £31,979 ledled y DU yn gyffredinol. Fodd bynnag, er bod incwm cyfartalog aelwydydd Ceredigion yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, mae'n cymharu'n ffafriol â Phowys, Sir Gaerfyrddin a hyd yn oed ardal drefol fwy Abertawe, gweler Ffigur 45 isod.

**Ffig. 44: Incwm canolrifol: Cymru a'r DU**




*Ffynhonnell: CACI Paycheck 2019*

**Ffig. 45: Incwm Canolrifol: Canolbarth a Gorllewin Cymru**




Ar lefel leol, mae amrywiad mawr yn lefel incwm cyfartalog aelwydydd ar draws y sir. Yn 2019 roedd incwm canolrifol aelwydydd yn amrywio rhwng £18,707 yn Aberteifi Rhyd-y-Fuwch i £35,508 yn y Faenor. Roedd yr ardaloedd gyda'r incwm aelwyd uchaf i gyd yng ngogledd gwledig y sir, tra bod yr incymau isaf yn nhrefi Aberteifi, Aberystwyth a Llandysul, gweler Tabl 15.

**Tabl 15: Incwm aelwyd uchaf ac isaf yng Ngheredigion**

| Ardaloedd ag incwm aelwydydd uchaf | Incwm yr aelwyd |
|---|---|
| Y Faenor | £35,508 |
| Trefeurig | £34,224 |
| Ceulan | £33,493 |
| Llanfarian | £33,123 |
| Melindwr | £32,979 |


| Ardaloedd sydd â'r incymau cartref isaf | Incwm yr aelwyd |
|---|---|
| Aberteifi - Rhyd-y-Fuwch | £18,707 |
| Aberystwyth Rheidol | £21,830 |
| Aberteifi – Teifi | £22,151 |
| Tref Llandysul | £23,313 |
| Canol Aberystwyth | £23,442 |

*Ffynhonnell: CACI Paycheck 2019*

Mae Ffigur 46 yn dangos dosbarthiad incwm aelwydydd ar draws y Sir, ac mae'n dangos yn glir yr amrywiad eang mewn incwm. Y band incwm canolrifol yw £25,000 i £30,000, a'r band incwm

cymedrig yw £30,000 i £35,000[25]. Mae'r gyfran uchaf o aelwydydd Ceredigion yn dod o fewn y band £15,000-£20,000, sy'n cyfateb i 3,922 o aelwydydd allan o gyfanswm o 31,602. Yn wir, mae gan y mwyafrif o aelwydydd Ceredigion (54.2%) incwm aelwyd o £30,000 neu lai, ac mae gan ychydig dros draean (33.9%) incwm o £20,000 neu lai. Ar ben arall y raddfa, mae gan 20.0% incwm o £50,000 neu fwy ac mae gan 2.1% incwm o £100,000 neu fwy.

**Ffigur 46: Dosbarthiad incwm yng Ngheredigion yn ôl Band Incwm**




Yn ôl y disgwyl roedd y nifer fwyaf o aelwydydd ag incwm islaw 50% o ganolrif Prydain yn nhrefi Aberystwyth ac Aberteifi. Mae incwm aelwyd yn cyfeirio at incwm yr aelwyd o bob ffynhonnell gan gynnwys pensiynau a budd-daliadau yn ogystal â chyflogau, ac felly i raddau helaeth, bydd y patrwm incwm ar draws y sir yn adlewyrchu dosbarthiad gwahanol grwpiau fel pensiynwyr, myfyrwyr a hawlwyr budd-daliadau. Mae hyn yn egluro, er enghraifft, y ffigwr incwm aelwydydd anarferol o uchel ar gyfer Sir Benfro sy'n cynnwys incwm o bensiynau.


Mae hefyd yn bwysig cofio bod newidiadau mewn patrymau cymudo, yn enwedig y cynnydd sydyn yn y rhai sy'n cymudo allan o'r sir dros y pedair blynedd diwethaf, yn golygu nad yw incwm aelwydydd yng Ngheredigion o reidrwydd ar gael yng nghyffiniau uniongyrchol y preswylydd. Er enghraifft, mae'n debygol bod yr incwm canolrifol uchel a welir mewn rhannau o gefn gwlad Ceredigion yn deillio o enillion o gyflogaeth yn Aberystwyth yn hytrach na'r ardal leol gyfagos. Yn yr un modd, oherwydd y pellteroedd cymudo cymharol uchel o breswylfeydd Ceredigion, mae hefyd yn debygol bod incwm rhai aelwydydd yn deillio o gyflogaeth yn siroedd cyfagos Powys, Sir Gaerfyrddin ac efallai Sir Benfro.

## Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Caiff y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ei fesur gan y gwahaniaeth canrannol rhwng enillion dynion a menywod yn ôl yr awr. Er bod y bwlch cyflog yng Nghymru wedi gostwng rhwng 2016 a 2018, yn y flwyddyn ddiwethaf cynyddodd ychydig, 0.8 pwynt canran, i 14.5%. Fodd bynnag, yng Ngheredigion, roedd y bwlch cyflog yn dangos y duedd gyferbyniol, gan ostwng o 13.3% i 10.9%, sy'n gosod y sir islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Gweler y siart isod. Mae Sir Gaerfyrddin yn un o

ddwy sir yn unig yng Nghymru sydd â bwlch cyflog negyddol, h.y. lle mae menywod yn ennill mwy na dynion, a'r llall yw Merthyr Tudful.

**Ffigur 47: Cymhareb bwlch cyflog rhwng y rhywiau Canolbarth a De-orllewin Cymru 2019**




Mae Ceredigion wedi bod yn gyson is na'r cyfartaledd ers dechrau monitro'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Yn y DU yn gyffredinol, er bod y bwlch yn parhau i ostwng, mae'n uwch o lawer ar 17.3%, sy'n golygu bod enillion menywod ar hyn o bryd tua 80% o gyflogau canolrifol fesul awr dynion.

## Mwy na chyfoeth materol

> ***"Mae ffyniant yn golygu mwy na chyfoeth materol – mae'n golygu bod pob un ohonom yn cael bywyd o ansawdd da, ac yn byw mewn cymunedau cryf a diogel."***
>
> – Ffyniant i Bawb: Y strategaeth genedlaethol i Gymru[26]

Yn y ddogfen *Ffyniant i bawb: y strategaeth genedlaethol*, mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod ffyniant yn goresgyn cyfoeth materol ac yn cael ei ddylanwadu gan unrhyw nifer o ffactorau eraill, mwy anniriaethol, megis ansawdd bywyd, yr amgylchedd rydym yn byw ynddo a'n diogelwch personol. Rydym i gyd yn gwerthfawrogi pethau gwahanol mewn bywyd, a'r cyfuniad o'r ffactorau hyn sy'n pennu ein ffyniant cyffredinol a'n hymdeimlad o les. Mae'n gyfuniad cymhleth o iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol unigolyn, ac nid yw'n syndod ei fod yn anodd ei ddiffinio.


## Diffinio llesiant

Ar lefel genedlaethol, mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb yn llesiant Cymru *yn ei chyfanrwydd* ac mae wedi diffinio'r term drwy ei saith nod llesiant cenedlaethol. Yn fwy lleol, roedd Asesiad diweddaraf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion o Lesiant Lleol[27] yn gofyn i bobl ar draws Ceredigion beth mae llesiant yn ei olygu iddyn nhw. Dangosodd yr ymatebion mai iechyd a hapusrwydd oedd y ddau derm a nodwyd amlaf.


## Iechyd

Mae mesur llesiant fel hyn yn oddrychol iawn, ond mae'r Cyfrifiad Cenedlaethol yn rhoi cipolwg ar iechyd preswylwyr – mae cyfran uwch o boblogaeth breswyl Ceredigion yn dweud bod eu hiechyd naill ai'n *dda* neu'n *dda iawn* o gymharu â Chymru gyfan – 79.2% yng Ngheredigion o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 77.8%. I'r gwrthwyneb, roedd y rhai a nododd bod eu hiechyd naill ai'n *wael* neu'n *wael iawn* yn is yng Ngheredigion, 6.3%, o gymharu â'r ffigur cenedlaethol o 7.6%. Gweler Ffigurau 48 a 49 isod.

**Ffigur 48: Preswylwyr mewn iechyd da neu iechyd da iawn**





**Ffigur 49: Preswylwyr mewn iechyd gwael neu iechyd gwael iawn**




Mae'n dilyn bod preswylwyr â chyflwr iechyd cyfyngus hirdymor yng Ngheredigion (21.1%) yn is nag ar draws Cymru (22.7%). (Mae'r term "salwch cyfyngus hirdymor" yn ymadrodd sy'n gyfystyr

ag anabledd yn y Cyfrifiad). Mae hyn hefyd yn wir am breswylwyr sydd â chyflwr sy'n cyfyngu lcryn dipyn ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd – 10.0% yng Ngheredigion o gymharu â 11.9% yn genedlaethol, gweler Ffigur 50.


**Ffigur 50: Salwch cyfyngus hirdymor**




At hynny, caiff hyn ei adlewyrchu hefyd yn y ddarpariaeth o ofal di-dâl, lle mae'r 11.3% o drigolion Ceredigion sy'n darparu gofal di-dâl yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 12.1%.

Mae disgwyliad oes yng Ngheredigion yn dda hefyd – adeg geni mae'r disgwyliad ar gyfer dynion yn 80.5 oed ac mae'n 84.1 mlynedd ar gyfer menywod, ac mae'r ddau'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer dynion a menywod yn y drefn honno. Mae hyn hefyd yn cymharu'n ffafriol â rhannau eraill o Ganolbarth a Gorllewin Cymru, lle mae'r disgwyliad oes ar gyfer dynion yn 79.9 ac ar gyfer menywod yn 83.4.

**Ffigur 51: Disgwyliad oes adeg geni**





Mae disgwyliad oes ledled Cymru wedi cynyddu'n raddol dros yr ugain mlynedd diwethaf, ac mae'r un peth yn wir yng Ngheredigion, lle mae'r disgwyliad adeg geni wedi cynyddu o 75.0 mlynedd i 80.5 oed ar gyfer dynion, ac o 80.3 mlynedd i 84.1 mlynedd ar gyfer menywod.

## Hapusrwydd a boddhad â bywyd

Mae mesur "hapusrwydd" yn oddrychol ac felly'n anodd iawn ei wneud. Serch hynny, dengys yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2019[28] fod *boddhad â bywyd* yn gyffredinol yng Ngheredigion yn parhau'n gymharol uchel o'i gymharu â rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mesurir boddhad ar raddfa o 1-10 a defnyddir y cyfartaledd i bennu'r canlyniad cyffredinol ar gyfer ardal. Mae canlyniad o 7.69 ar gyfer Ceredigion yn uwch na'r cyfartaledd o 7.67 ar gyfer Canolbarth a De-orllewin Cymru a'r cyfartaledd cenedlaethol o 7.68

(Ffigur 52). Mae boddhad â bywyd hefyd wedi dangos cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf, gan godi o 7.60 yn 2017/18.

**Ffigur 52: Boddhad â bywyd a hapusrwydd**





Roedd tueddiad tebyg iawn i'w weld pan ofynnwyd iddynt am deimlo'n *werth chweil* – roedd sgôr Ceredigion o 7.94 unwaith eto yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 7.88 a'r cyfartaledd rhanbarthol o 7.92. Pan ofynnwyd yn uniongyrchol am deimlo'n *hapus*, sgoriodd Ceredigion yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol unwaith eto gyda chanlyniad o 7.55 o gymharu â 7.53 ar gyfer Cymru gyfan. Mae hyn yn darparu tystiolaeth bellach i ddangos bod Ceredigion yn cael ei ystyried yn lle iach a hapus o'i gymharu â llawer o rannau eraill o'r wlad.


## Diogelwch a diogeledd

Yn ôl arolwg y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, rhai o'r ffactorau eraill a nodwyd gan ymatebwyr sy'n effeithio ar lesiant oedd diogelwch a diogeledd. Mae cyfraddau troseddu yng Ngheredigion ymhlith y rhai isaf yn y DU, ac mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod nifer gwirioneddol y troseddau yng Ngheredigion wedi parhau i ostwng, gan ddisgyn o 4,366 am y deuddeng mis hyd 31 Mawrth 2017 i 3,725 am y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2018. Mae'r gyfradd droseddu am bob 1,000 o'r boblogaeth yn is na'r ardaloedd cyfagos yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro ond yn uwch na Phowys, er mai Ceredigion yw'r unig ardal yng Nghanolbarth/Gorllewin Cymru i weld gostyngiad yn ei chyfradd droseddu dros y cyfnod hwnnw.

**Ffigur 53: Cyfradd droseddu yng Ngheredigion fesul 1,000 o'r boblogaeth**





**Ffigur 54: : Cyfradd droseddu fesul 1,000 o'r boblogaeth - Canolbarth / De-orllewin Cymru**



Mae'n hysbys bod ofn trosedd yn aml yn fwy na'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mae trigolion Ceredigion yn parhau i deimlo'n ddiogel gan sgorio'n uchel iawn yn Arolwg Cenedlaethol Cymru[29]. Er enghraifft, trigolion yn teimlo'n *ddiogel* neu'n *ddiogel iawn* yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu, sef 91%, oedd y canlyniad uchaf ond un ledled y wlad, teimlo'n *ddiogel gartref ar ôl iddi dywyllu* oedd y canlyniad uchaf yn genedlaethol ar 99% ar y cyd ag ardal arall, a theimlo'n *ddiogel ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu* oedd y canlyniad uchaf yn genedlaethol, sef 91%, gweler Ffigur 55.

**Ffigur 55: Teimlo'n ddiogel ar ôl iddi dywyllu**





## Yr Amgylchedd

Nododd y trigolion hefyd fod yr **amgylchedd naturiol** yn effeithio ar eu llesiant. Nid yw hyn yn syndod gan mai un o brif atyniadau'r sir i drigolion ac ymwelwyr yw ei harfordir hardd, ei thraethau a'i thirwedd wledig odidog. Mae'n dilyn bod y sir hefyd yn adnabyddus am ei bywyd gwyllt - er enghraifft, mae morlin ac aberoedd Bae Ceredigion yn gynefinoedd pwysig i adar y môr tra yn ei ddyfroedd gellir gweld y Dolffin Trwynbwl, y Llamhidydd a Morlo Llwyd yr Iwerydd.


Dangosir pwysigrwydd yr amgylchedd naturiol drwy ei ddynodiadau cadwraeth natur statudol. Er enghraifft, mae ychydig dros 100 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SODDGA) yng Ngheredigion. Defnyddir Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig i ddynodi ardaloedd gwarchodedig yn y DU, a dangosir lleoliad pob un ar y map yn Ffigur 56.

**Ffigur 56 – Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Ngheredigion**




Ceir hefyd 7 o warchodfeydd natur cenedlaethol a 14 Ardal Cadwraeth Arbennig (Ffigur 57) a ddiffinnir yng Nghyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd i warchod cynefinoedd a rhywogaethau yr ystyrir eu bod o ddiddordeb Ewropeaidd.


**Ffigur 57 – Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yng Ngheredigion**




Ar ei ffin ogleddol â Gwynedd, mae Biosffer Dyfi, un o chwech yn unig yn y DU. Mae gwarchodfa biosffer yn ecosystem gyda phlanhigion ac anifeiliaid o ddiddordeb gwyddonol a naturiol anarferol. Mae'r statws hwn, a osodir gan UNESCO, yn hyrwyddo rheolaeth, ymchwil ac addysg

mewn perthynas â’r ecosystem, ac mae'n annog cymunedau i weithio gyda'i gilydd i greu dyfodol cynaliadwy.

**Ffigur 58 – Biosffer Dyfi**





Cydnabyddir manteision iechyd a llesiant yr enghreifftiau hyn yn eang ac maen nhw'n cynnwys manteision corfforol amlwg amgylchedd iach fel ansawdd aer a dŵr da. Ond mae bod yn agos at natur a'r amgylchedd naturiol hefyd yn chwarae rhan yn ein lles meddyliol drwy wella rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniant. Mae agosrwydd at fannau gwyrdd wedi cael ei gysylltu â lefelau is o straen a lleihau symptomau iselder a gorbryder, tra bod rhyngweithio â natur yn gallu gwella gwybyddiaeth i blant sydd â diffygion sylw ac unigolion ag iselder.

Yn gysylltiedig â hyn mae'r cyfleoedd ar gyfer ymarfer corff a hamdden a ddarperir gan y 60km o lwybr arfordirol Cymru sy'n rhedeg rhwng aberoedd afon Teifi ac afon Dyfi. Mae'r llwybr yn cysylltu trefi a phentrefi ar hyd arfordir Bae Ceredigion ac fe'i hategir gan gyfoeth o fywyd gwyllt a hanes i gerddwyr eu mwynhau. Ceir enghreifftiau dirifedi eraill sy'n dangos ansawdd yr amgylchedd naturiol yng Ngheredigion a'i rôl wrth gryfhau iechyd a llesiant trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd – yr Arfordir Treftadaeth rhwng aberoedd afon Teifi ac afon Dyfi, dyffryn afon Teifi, gwarchodfeydd natur lleol ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig i enwi dim ond rhai. Daeth adroddiad 2016 gan Sefydliad Iechyd y Byd[30] i'r casgliad bod mannau gwyrdd yn cynnig nifer o fuddion iechyd cyhoeddus, gan ganolbwyntio ar ymlacio seicolegol, lleihau straen a gwella gweithgarwch corfforol.

Nid yw'n syndod felly fod canlyniadau Arolwg Cenedlaethol diweddaraf Cymru[31] yn dangos lefelau uchel parhaus o foddhad â'r ardal leol - dywedodd 94% eu bod yn fodlon, sef nid yn unig y canlyniad uchaf o fewn rhanbarth De a Gorllewin Cymru (Ffigur 59), ond hefyd y canlyniad uchaf o blith unrhyw ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae dangosyddion eraill sy'n ymwneud â'r amgylchedd yn dangos canlyniadau uchel yn yr un modd – roedd boddhad ag ansawdd y mannau gwyrdd lleol yn 91%, y canlyniad uchaf unwaith eto yn y rhanbarth ac un o'r canlyniadau

uchaf yng Nghymru, a dywedodd 89% fod y gofod gwyrdd lleol yn heddychlon, sef y canlyniad cydradd uchaf yn genedlaethol.


**Ffigur 59: Boddhad â'r ardal leol 2018/19 (Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru)**




## Newid Hinsawdd

Fodd bynnag, gyda hyn daw ymdeimlad o gyfrifoldeb i ddiogelu a gwarchod yr amgylchedd naturiol heddiw ac i genedlaethau'r dyfodol ei fwynhau. Mae pryder am yr amgylchedd, ac yn arbennig newid yn yr hinsawdd, yn uwch nag erioed o'r blaen. Adlewyrchir hyn yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19 lle mae 93% o ymatebwyr ledled Cymru yn credu bod yr hinsawdd yn newid. At hynny, mae lefel y pryder am y newid yn yr hinsawdd yn cynyddu, gan godi o 67% yn eithaf pryderus neu'n bryderus iawn yn 2016/17 o'i gymharu â 77% yn yr arolwg diweddaraf ar gyfer 2018/19 (Ffigur 60).[32]

**Ffigur 60: Pryder ynghylch newid yn yr hinsawdd ar draws Cymru**




Waeth beth fo'r achosion, boed yn newidiadau naturiol, wedi'u gwneud gan ddyn neu'n gyfuniad o'r ddau, mae'r dystiolaeth wyddonol yn awgrymu bod tymheredd y byd yn codi'n gyflymach nag ar sawl adeg arall mewn hanes, bod crynodiad CO2 yn yr atmosffer yn uwch nag ar unrhyw adeg mewn o leiaf 800,000 o flynyddoedd, bod lefelau'r môr cyfartalog ledled y byd wedi cynyddu 3.6mm y flwyddyn rhwng 2005 a 2015, ac mae cofnodion lloeren yn dangos gostyngiad dramatig yn iâ môr yr Arctig ers 1979.[33]

Mae gwyddonwyr yn credu ein bod ni'n ychwanegu at yr effaith tŷ gwydr naturiol, gyda nwyon yn cael eu rhyddhau o ddiwydiant ac amaethyddiaeth yn dal mwy o ynni ac yn cynyddu'r tymheredd. Yn ôl Sefydliad Meteorolegol y Byd, mae'r byd yn un radd Celsius yn gynhesach na chyn diwydiannu eang. Un o effeithiau disgwyliedig y newid yn yr hinsawdd yw cynnydd yn amlder digwyddiadau tywydd eithafol.[34]

Yng Ngheredigion, gellir gweld effaith y newid yn yr hinsawdd mewn sawl lleoliad, ond yr un amlychaf yw effaith cynnydd yn lefel y môr ar draeth Tanybwlch, lle mae'r clawdd graean yn gweithredu fel rhwystr rhwng y môr a'r tir. Mae'r gefnen raeanog yn un o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Ceredigion. Fodd bynnag, mae cynnydd yn lefel y môr a stormydd amlach wedi achosi pryder cynyddol y gallai'r môr orlifo'r amddiffynfa hon. Dim ond un enghraifft yw hon o'r ffordd y mae cynhesu byd-eang yn effeithio ar arfordir Ceredigion a Chymru. Y gobaith yw y bydd ymchwil a gynhelir gan Gyngor Sir Ceredigion a Chyfoeth Naturiol Cymru yn llywio cynlluniau ar gyfer rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd yn Nhanybwlch ac ar hyd arfordir Ceredigion.


Cynhyrchwyd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar gyfer Ceredigion yn 2002 gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Ceredigion, sy'n cynnwys amrywiaeth o sefydliadau sydd â chyfrifoldebau dros fywyd gwyllt. Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar rai o elfennau mwyaf arwyddocaol amgylchedd naturiol Ceredigion, gan gymryd amcanion a thargedau cenedlaethol i ystyriaeth.

Rydym hefyd yn gwybod o Arolwg Cenedlaethol Cymru, mai o'r holl gamau y dylai'r Llywodraeth eu cymryd i gyfyngu ar effaith newid yn yr hinsawdd, roedd ymatebwyr o'r farn mai cynyddu defnydd o ynni adnewyddadwy (er enghraifft gwynt neu solar) oedd y pwysicaf, gyda 73% yn dweud y dylai'r Llywodraeth gymryd y camau hyn[35]. Mae cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn chwarae rhan allweddol yng Ngheredigion, ac mae hyn yn cael ei drafod yn fanylach yn yr adran ar Ynni yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

## Amddifadedd

Gwneir y camgymeriad yn aml o dybio bod amddifadedd yn gysylltiedig â chyfoeth yn unig. Fodd bynnag, mae amddifadedd yn amlweddog ac mae'n cyfeirio at anghenion nas diwallwyd sy'n cael eu hachosi gan ddiffyg adnoddau a chyfleoedd cyffredinol yn ein cymdeithas, yn faterol ac yn gymdeithasol, e.e. o ran iechyd ac addysg. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC), a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2019, yn darparu mesur cymharol o amddifadedd ar gyfer ardaloedd bach neu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs - ACEHI) yng Nghymru. Mae MALlC yn cyfuno sgoriau ar draws wyth maes i gynhyrchu mesur cymharol cyffredinol o amddifadedd, gan raddio pob ardal fach yng Nghymru o 1 (mwyaf difreintiedig) i 1,909 (lleiaf difreintiedig). Mae MALlC yn fesur cymharol ac nid yw ond yn darparu mesur sy'n ystyried a yw ardal yn fwy neu'n llai difreintiedig na phob ardal arall yng Nghymru; Nid yw'n rhoi mesur o lefel yr amddifadedd mewn ardal.

**Ffigur 61: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019-Ceredigion**[36]





*(Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2019)*

Mae'r map yn Ffigur 61 yn dangos dosbarthiadau daearyddol mynegai cyffredinol MALlC ar draws Ceredigion, wedi'u grwpio yn ôl rhengoedd a degraddau. O fewn Ceredigion, dim ond ambell boced o amddifadedd cymharol uchel ar lefel ACEHI sydd yng ngogledd a de'r sir (ardal Aberystwyth ac Aberteifi). Yn ôl MALlC, mae tri o 46 ardal Ceredigion yn y 30% o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r ACEHI sydd ymysg y 30-50% mwyaf difreintiedig wedi'u lleoli yn fwy mewndirol, yn nwyrain Ceredigion, tra bod yr ardaloedd sydd o fewn y 50% lleiaf difreintiedig yn tueddu i fod wedi'u lleoli ger yr arfordir.

Dengys Ffigur 62, ar gyfer mynegai cyffredinol MALlC 2019, y ganran o ACEHI yng Ngheredigion a oedd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru wedi'u grwpio'n ddegraddau. Roedd y gyfran uchaf o ACEHI Ceredigion (28% neu 13 ardal) yn perthyn i'r 40-50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

**Ffigur 62: Canran ACEHI Ceredigion o ran amddifadedd wedi'u grwpio fesul degradd ar gyfer mynegai cyffredinol MALlC 2019**




*(Ffynonellau: yn deillio o MALlC, 2019. Sylwer: Efallai na fydd y ffigurau'n adio oherwydd talgrynnu)*


Yr ardal sydd yn y safle mwyaf difreintiedig yng Ngheredigion yw ardal Aberteifi - Teifi, ac yna Aberteifi - Rhyd-y-Fuwch ac Aberystwyth Penparcau 1 sydd yn safle 125, 370 a 533 ymhlith yr ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y drefn honno. Yr ardal sydd yn y safle lleiaf difreintiedig yng Ngheredigion yw'r Faenor 1, a leolir o fewn tref Aberystwyth. Mae'r Faenor 1 wedi'i gosod yn safle 1875 o blith yr ACEHI yng Nghymru, sy'n ei gosod yn y 10% o ACEHI lleiaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r ardal safle uchel hon yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r pentref myfyrwyr (Pentre Jane Morgan), sy'n cyferbynnu â'r tueddiad cenedlaethol, lle yr ystyrir yn aml fod ardaloedd myfyrwyr yn fwy difreintiedig oherwydd eu cysylltiad â chyfraddau troseddu uwch, ysbwriel a thai gwael. Mae'n werth nodi felly mai yn Aberystwyth y mae'r Faenor 1 a Penparcau 1 wedi'u lleoli. Mae'r gwahaniaethau hyn yn y crynodiadau o amddifadedd amlweddog yng Ngheredigion yn ein hatgoffa o'r bwlch eang o gyfleoedd a all fodoli o fewn sir ac mewn cymunedau a leolir yn agos at ei gilydd.

Yn arbennig, o fewn ardal wledig, mae pobl ddifreintiedig yn tueddu i wasgaru'n fwy daearyddol nag mewn ardaloedd trefol. Mae amddifadedd mewn ardaloedd gwledig yn aml yn bodoli ar raddfa stryd yn hytrach nag mewn cymdogaethau cyfan. Dadansoddodd MALlC 2019 amddifadedd ar lefel ACEHI; gall dadansoddiad o'r fath guddio pocedi bach o amddifadedd o fewn ACEHI Ceredigion.

## Safle Ceredigion ar MALIC o'i gymharu â Chymru wledig

Ar lefel awdurdodau lleol, gellir crynhoi MALIC drwy edrych ar gyfran yr ardaloedd o fewn yr awdurdod lleol sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig. Gan ddefnyddio'r math hwn o ddadansoddiad, mae Ceredigion yn perfformio'n dda, gyda'r drydedd gyfran isaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig (ar y cyd ag Ynys Môn) yng Nghymru. O'i gymharu â'r awdurdodau lleol cyfagos, mae safle Powys ychydig yn well na Cheredigion, tra bod gan Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro gyfran uwch o ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig.  Mae Ffigur 63 yn dangos y gwahaniaethau hyn ar draws yr awdurdodau lleol a elwir yn rhai 'gwledig' yng Nghymru. Felly, mae 36% o'r holl ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig o ACEHI ledled Cymru mewn awdurdodau lleol gwledig.

**Ffigur 63: Canran o ACEHI awdurdodau lleol yn y 10% mwyaf difreintiedig o blith holl ACEHI Cymru**





*(Ffynonellau: MALIC, 2019)*

## Ffactorau sy'n sbarduno amddifadedd: Y meysydd

Mae'r Mynegai yn cynnwys wyth maes sy'n crisialu gwahanol ddimensiynau amddifadedd; incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad at wasanaethau, diogelwch cymunedol, yr amgylchedd ffisegol a thai. Mae pob maes wedi'i lunio o ystod o wahanol ddangosyddion. Mae Ffigur 64 yn dangos y 10-30% mwyaf difreintiedig fesul maes yng Ngheredigion. Y meysydd gwaethaf yng Ngheredigion yw *mynediad at wasanaethau* a *thai*. Y meysydd sy'n gwneud yn gymharol dda yw *addysg* ac *iechyd*.

**Figure 64: Cyfran o ardaloedd difreintiedig yng Ngheredigion yn ôl meysydd**




*(Ffynonellau: MALIC, 2019)*

Mae'r **maes mynediad at wasanaethau** yn mesur amser teithio i naw gwasanaeth allweddol. Mae'r rhain yn fynediad ffisegol (e.e. yr amser teithio cyfartalog i siop fwyd ac yn ôl) a mynediad digidol (e.e. cyfran y cartrefi/busnesau bach nad ydynt yn gallu derbyn band eang cyflym iawn). Ar y mesur hwn, mewn termau cymharol, mae Ceredigion yn eithriadol o ddifreintiedig ac mae hanner ACEHI yr awdurdod lleol yn perthyn i'r 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Ceredigion yw'r ail fwyaf difreintiedig yng Nghymru ar y Mesur hwn (mae Powys yn y safle cyntaf). Ar gyfer y maes hwn, Penbryn, Lledrod, Capel Dewi a Melindwr yw'r 10fed, 14eg 16ain a'r 18fed ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae'r maes **tai** yn nodi tai annigonol, o ran amodau byw ffisegol, ac argaeledd. Mae'r maes yn cynnwys mesurau megis gorlenwi a'r tebygolrwydd o dai o ansawdd gwael (e.e. y tebygolrwydd y bydd tai mewn cyflwr gwael neu'n cynnwys peryglon difrifol). Yn y maes hwn, mae dros chwarter (28% neu 13 ardal) o ACEHI Ceredigion yn perthyn i'r deg y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Dyma'r gyfran uchaf yn genedlaethol.

Mae arolygon o amodau tai wedi nodi bod gan Geredigion gyfran uchel o stoc dai hŷn, sy'n aml yn oer ac yn llaith, ac yn cynnwys peryglon syrthio a baglu (Adamson, 2007). Gall y ffactorau hyn fod yn waeth mewn ardaloedd gwledig fel Ceredigion, sy'n gallu bod yn fwy agored i'r elfennau a heb fynediad at nwy'r brif bibell. Caiff safle cymharol Ceredigion ei yrru gan dai o ansawdd gwael mewn pentrefi anghysbell (Llansanffraid 1, Lledrod a Melindwr), a chan gyfraddau gorlenwi cymharol uchel mewn rhai ardaloedd mewn trefi (Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi).

Mae'r maes **addysg** yn crisialu graddau'r amddifadedd sy'n gysylltiedig ag addysg, hyfforddiant a sgiliau. Hwn oedd maes lleiaf difreintiedig Ceredigion ac nid oedd yr un o'i ardaloedd yn perthyn i'r 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Yn wir, yn genedlaethol, Ceredigion oedd â'r gyfran isaf o ardaloedd (22% neu 10 ardal) yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae safle cymharol teilwng Ceredigion yn cael ei yrru gan ei gyfartaledd isel o absenoldeb mynych (3.5%) a chanran isel o oedolion 25-64 oed heb gymwysterau; 14.5% (33% yn is na'r

cyfartaledd cenedlaethol). Yn ogystal, sgôr pwyntiau cyfartalog CA4 (TGAU) uchel Ceredigion yn y pynciau craidd, sef 126.7, yw'r sgôr cyfartalog uchaf ond un yn genedlaethol.

## Canlyniad

Ar y cyfan, mae gan Geredigion lefelau cymharol isel o amddifadedd. Mae Ceredigion yn perfformio'n dda yn y rhan fwyaf o'r parthau, yn enwedig o ran cael lefelau isel o amddifadedd mewn iechyd ac addysg. Fodd bynnag, mae’r sefyllfa o ran tai a mynediad at wasanaethau yn wael, gyda'r olaf yn ffenomen wledig yn bennaf.

Fodd bynnag, mae pryderon parhaus nad yw amddifadedd gwledig yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol yn MALIC. Y rheswm am hyn yw bod profiadau o amddifadedd mewn awdurdodau gwledig fel Ceredigion yn digwydd ar raddfa lai ac yn aml maen nhw'n gudd ac nid oes cofnod ohonyn nhw.  Mae mesurau ar sail ardal yn llai priodol i nodi anfantais wledig wasgaredig ac felly gallant roi cyfrif rhy fach o lefelau amddifadedd gwledig. At hynny, nid yw llawer o'r dangosyddion yn ymwneud yn benodol â materion gwledig, megis fforddiadwyedd tai, costau byw a mynediad at gyflogaeth. Mae'r farn hon yn cael ei rhannu gan lawer mewn ardaloedd awdurdodau lleol gwledig gan gynnwys Ceredigion.

## Gwledigrwydd a Cheredigion

Mae gwledigrwydd yn ffactor pwysig yng nghyswllt bywyd yng Ngheredigion: mae dros hanner y boblogaeth yn byw y tu allan i'r prif drefi, naill ai yn y trefi llai neu'r pentrefi neu yng nghefn gwlad agored. Er bod byw'n agos at yr amgylchedd naturiol yn dod â manteision sylweddol o ran llesiant, gall hefyd effeithio ar sut mae pobl yn cael mynediad at wasanaethau a'r ffordd y caiff y gwasanaethau hynny eu darparu, megis tai neu ofal yn ddiweddarach mewn bywyd.

P'un a yw'n fater o gymudo i'r dref ar gyfer gwaith neu ddarparu cyfleustodau fel signal ffôn i dŷ yn y wlad, mae'n costio mwy i ddarparu a chyrchu nwyddau, gwasanaethau, swyddi a chyfleoedd cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig.

Mae'n anodd cynnal darpariaeth amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau bob dydd mewn aneddiadau llai, hyd yn oed yn y trefi marchnad bychain sy'n darparu canolfannau gwasanaeth i'r ardaloedd gwledig, mae'r galw ar wasgar ar draws ardal eang; mae defnydd cynyddol o sianeli digidol a chymudo yn golygu bod mwy yn cael ei ddarparu gan gyflenwyr y tu allan i'r gymuned leol; mae sefydliadau cyhoeddus e.e. Swyddfa'r Post a busnesau'n adolygu'n gyson ddichonoldeb darparu gwasanaethau ar raddfa fach yn lleol.

Bydd darparu gwasanaethau lefel uchel (megis diagnosis neu driniaeth iechyd arbenigol) mewn lleoliadau sy'n hygyrch i bobl sy'n byw yng Ngheredigion wledig bob amser yn her. Gall Aberystwyth a Chaerfyrddin fod yn ganolfannau lleol pwysig, ond yn y pen draw, trefi bach â phoblogaethau cymharol isel ydynt ac ni fyddai disgwyl iddynt gynnal ystod gyflawn o wasanaethau lefel uchel. Bydd cwestiynau o hyd ynghylch y cydbwysedd rhwng cost gwasanaeth, y boblogaeth optimaidd y dylai ei gwasanaethu a hygyrchedd i bobl sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell.


Bydd newidiadau i'r cyd-destun economaidd, technolegol a chymdeithasol yn golygu y bydd y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu i bobl mewn ardaloedd gwledig, neu'n cael eu defnyddio ganddynt, yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd sianeli digidol yn cynnig her a chyfle. Mae llawer o fusnesau a sefydliadau'n symud eu prif fusnes i'r maes digidol, a all olygu bod gwasanaethau'n diflannu o'r stryd fawr leol. Ar y llaw arall, gallai llunio gwasanaethau o gwmpas sianelau digidol mewn modd deallus gynnig ystod lawer gwell o wasanaethau mwy cyfrifol i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.

# Ynni

## Y sector ynni a'r economi

Mae'r sector ynni yn bwysig i Gymru – mae'r wlad yn allforiwr ynni net i weddill y DU a'r rhwydwaith trydan Ewropeaidd ehangach, gan greu tua 30.2 TWh (awr terawatt) o drydan yn 2018. Mae'r sector yn cyfrannu at dwf economaidd y genedl drwy greu swyddi a gwerth yn y broses o gynhyrchu a dosbarthu ynni ledled y DU. Amcangyfrifwyd bod gwerth hyn i'r economi yn £1.52bn yn 2018[37]. Er enghraifft, mae 7,000 o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn y diwydiant ynni yng Nghymru[38]. Yn ogystal, mae'r diwydiant ynni hefyd yn fuddsoddwr mawr ac yn prynu nwyddau a gwasanaethau o sectorau eraill. Mae Ffigur 65 yn crynhoi gwerth y sector ynni yng Nghymru.

**Ffigur 65: Gwerth y sector ynni yng Nghymru 2018**




## Rôl Ynni Adnewyddadwy

At hynny, mae Cymru yn ganolfan ar gyfer cynhyrchu ynni *adnewyddadwy* – amcangyfrifir bod 25% o'r ynni a gynhyrchir yng Nghymru yn dod o ffynonellau adnewyddadwy, ac mae hyn wedi bod yn cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf wrth i'r ymgyrch i leihau allyriadau carbon gynyddu er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o gwrdd â 70% o'r galw am drydan yng Nghymru o ffynonellau adnewyddadwy o 2030. Mae dros 55,000 o brosiectau ynni adnewyddadwy ar waith ledled y wlad, gyda bron i 3,500 yng Ngheredigion yn unig, ac amcangyfrifir eu bod yn cynhyrchu 656GWh (oriau gigawatt) o drydan.

Mae capasiti ynni adnewyddadwy lleol hefyd wedi bod yn cynyddu, ac mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y manteision , cymdeithasol ac amgylcheddol a ddaw yn sgil cynnwys cymunedau lleol mewn gweithgareddau creu ynni. Ar hyn o bryd mae Cymru'n 78% o'r ffordd i gyflawni targed strategaeth ynni Cymru o 1GW o gapasiti ynni adnewyddadwy a berchenogir yn lleol erbyn 2030 ac mae'r capasiti yn cyrraedd tua 783MW yn 2018. Dengys Tabl 16 y broses o gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn y DU trwy wahanol fathau o dechnoleg, ac mae'n dangos yn glir y cyfraniad sylweddol y mae Cymru'n ei wneud i gyfanswm cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn y DU.

**Tabl 16: Cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn y DU yn ôl technoleg mewn Megawat (MW)**

| Gwlad | Solar | Dŵr | Gwynt | Bio-ynni |
|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | **982** | **169** | **1,846** | **248** |
| Lloegr | 11,449 | 44 | 10,078 | 6,862 |
| Gogledd Iwerddon | 323 | 11 | 1,396 | 122 |
| Alban | 334 | 1,655 | 8,423 | 454 |


## Ynni adnewyddadwy yng Ngheredigion

Mae ynni adnewyddadwy yn arbennig o bwysig yng Ngheredigion, gan mai'r sir sy'n diwallu'r ganran uchaf o'i defnydd o drydan drwy gynhyrchu trydan adnewyddadwy. Mae hyn yn rhannol oherwydd ei lefel gymharol uchel o gynhyrchu ynni adnewyddadwy, yn cynnwys ynni dŵr, gwynt ar y tir a thrydan biomas. Er enghraifft, mae'r sir yn gartref i orsaf bŵer Rheidol, y prosiect ynni dŵr mwyaf yng Nghymru ac yn gyffredinol, mae'n dilyn mai Ceredigion yw'r cynhyrchydd ynni dŵr mwyaf yn y wlad.

## Costau ynni

Mae costau ynni'r un mor bwysig i fusnesau ac i unigolion, oherwydd wedi'r cyfan, mae ynni yn sail i'r economi ac yn fewnbwn i bron pob nwydd a gwasanaeth. Mae data diweddaraf UK Power [39] (Ffigur 66) yn dangos sut mae costau yn Ne Cymru (gan gynnwys Ceredigion) yn cymharu â gweddill y DU. Mae cost uned fesul cilowat awr ar gyfer De Cymru, 15.07c, yn uwch na'r cyfartaledd yn genedlaethol ac yn un o'r costau uchaf ledled y DU.


**Ffigur 66: Ceiniogau y kWh ar draws y DU**




Mae biliau trydan a nwy ledled y DU yn amrywio rhwng ardaloedd hyd yn oed os yw'r amgylchiadau'r un fath yn union a bod yr un faint o ynni'n cael ei ddefnyddio. Mae amrywiaeth o resymau dros hyn gan gynnwys y taliadau a godir gan y rhwydweithiau dosbarthu mewn ardal a'r galw am drydan ar ryw adeg benodol. At hynny, effeithir ar gostau nifer y bobl mewn ardal - os yw ardal yn drwchus ei phoblogaeth yna gall cyflenwyr ynni brynu mewn swmp o'r cynhyrchwyr trydan, gan leihau costau. Yn anffodus, mae'r gwrthwyneb yn wir am ardaloedd mwy tenau eu poblogaeth, sydd â goblygiadau i Geredigion. Ac eithrio Powys, Ceredigion sydd â'r dwysedd poblogaeth isaf o blith holl ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru. Dengys data gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer 2018 (Ffigur 67[40] ) mai''r bil trydan domestig

blynyddol cyfartalog ar gyfer rhanbarth De Cymru yw £692, un o'r cyfraddau uchaf ledled y DU unwaith eto, a £20 y flwyddyn yn ddrutach na chyfartaledd y DU.

**Ffigur 67: Cyfartaledd biliau trydan domestig 2018 - Rhanbarthau'r DU**




## Tlodi tanwydd

Mae hyn yn arwyddocaol oherwydd mae tua 155,000 o aelwydydd yng Nghymru sy'n dlawd o ran tanwydd, sy'n cyfateb i tua 12% o'r holl aelwydydd[41]. Nid yw canlyniadau ar lefel awdurdod lleol ar gael ar gyfer data 2018, ond gwyddom yn sgil Ymchwiliad i Dlodi Tanwydd yng Nghymru gan y Cynulliad Cenedlaethol yn 2015 fod 24.9% o aelwydydd Ceredigion yn cael eu hystyried yn dlawd o ran tanwydd, sy'n cyfateb i 7,643 o gartrefi[42]. Mae aelwyd yn profi tlodi tanwydd os yw'n gwario mwy na 10 y cant o'i incwm ar danwydd i gynnal lefel foddhaol o wres.

Mae ardal ddosbarthu De Cymru yn cynnwys nifer o ardaloedd tenau iawn eu poblogaeth megis yr ardaloedd mynyddig yng nghanolbarth Cymru, sy'n cynyddu costau dosbarthu. Mae cartrefi gwledig yn aml yn defnyddio tanwyddau heblaw nwy i wresogi eu cartrefi gan eu bod yn fwy tebygol o beidio â bod ar y prif rwydwaith nwy. Mae'r tanwyddau hyn, fel nwy petrolewm hylifedig (LPG) neu olew yn cynyddu cost gwresogi cartrefi yn sylweddol - mae costau olew, er enghraifft, yn cael eu heffeithio'n arbennig gan brisiau olew crai.

# Y Trydydd Sector

## Diffinio'r "trydydd sector"

Term ymbarél yw'r 'trydydd sector' sy'n cwmpasu amrywiaeth o sefydliadau gwahanol sydd â strwythurau a dibenion gwahanol, nad ydynt yn perthyn i'r sector cyhoeddus nac i'r sector preifat. Mae sefydliadau'r trydydd sector yn cynnwys elusennau, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, mentrau cymdeithasol a mentrau cydweithredol, melinau trafod a sefydliadau ymchwil preifat, ond nid yw'n cynnwys prifysgolion a cholegau. Mae rhai sefydliadau, megis cymdeithasau tai, yn deillio o'r llywodraeth a chânt eu hystyried yn grwpiau sy'n lled-berthyn i'r trydydd sector, er eu bod yn darparu gwasanaethau cyhoeddus.

## Gwerth y trydydd sector yng Nghymru

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn amcangyfrif bod 83 o oriau'n cael eu treulio yn gwirfoddoli bob blwyddyn, fesul gwirfoddolwr yng Nghymru. Byddai hynny'n cyfateb i tua 61 miliwn awr o amser gwirfoddoli i gyd, gyda gwerth o tua £757 miliwn. Er bod yr amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar yr arolwg diwethaf o Ddefnydd Amser y DU o 2015, maen nhw'n rhoi cipolwg ar y graddau mae gwirfoddoli'n digwydd yng Nghymru.

**Ffigur 68: Gwerth y trydydd sector yng Nghymru**





Mae hyn wedi'i osod yn erbyn cefndir o lai o arian grant gan Lywodraeth Cymru, a ostyngodd o £350 miliwn yn 2010/11 i £278 miliwn yn 2017/18, sy'n cyfateb i ostyngiad o 21%. Er gwaethaf hyn, mae'r sector elusennau a chyrff gwirfoddol yng Nghymru yn cyfrif am ychydig dros 8% o gyflogaeth yng Nghymru, gyda thua 100,000 o bobl yn cael eu cyflogi gan sefydliadau elusennol/gwirfoddol.

## Y trydydd sector yng Ngheredigion


Yng Ngheredigion, mae 3,444 o sefydliadau trydydd sector gweithredol (Ffigur 69), sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 3,330. Mae nifer y sefydliadau trydydd sector mewn unrhyw ardal yn amrywio yn ôl amrywiaeth o faterion, gan gynnwys gwledigrwydd, tlodi, cyfalaf cymdeithasol, y galw a strwythur y sector yn yr ardal leol. Mae'r trydydd sector mewn llawer o siroedd wedi'i drefnu'n dda, ac nid yw Ceredigion yn eithriad. Er enghraifft, mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) yn bodoli i hyrwyddo a chefnogi gweithredu cymunedol gwirfoddol ledled y sir, gan gynorthwyo unigolion a grwpiau i ddod yn rhan o'r sector, cefnogi prosiectau a helpu i ddod o hyd i wirfoddolwyr.

**Ffigur 69: Nifer y sefydliadau trydydd sector sy'n weithredol yng Nghymru**




Mae gwirfoddoli hefyd yn boblogaidd iawn yng Ngheredigion - mae'r gyfran o drigolion (16+ oed) sy'n gwirfoddoli yn y sir yn 33% neu tua 24,500 o bobl. Mae hyn yn llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 28%. Mae hyn yn seiliedig ar ganlyniadau diweddaraf Dangosydd 28 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o 2016/17 (Ffigur 70). Er eglurder, mae'r dangosydd yn diffinio "gwirfoddoli" fel oedolion sy'n rhoi o'u hamser am ddim i helpu clybiau neu sefydliadau, ond nid yw'n cynnwys y rhai sy'n darparu gofal ar gyfer rhywun[43].


**Ffigur 70: Canran y bobl sy'n gwirfoddoli 2016/17**
**(Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 28)**




Yn fras, mae cyfraddau gwirfoddoli yn tueddu i fod yn uwch mewn ardaloedd gwledig, ac felly nid yw'n syndod, efallai, fod gan Bowys a Sir Gaerfyrddin gyfran uchel o drigolion sy'n gwirfoddoli hefyd. At hynny, mae grwpiau oedran hŷn hefyd yn fwy tebygol o wirfoddoli - er enghraifft yng Ngheredigion mae 32% o bobl 24-44 oed yn gwirfoddoli, ond mae'r ffigur hwn yn codi i 37%

ymysg y grŵp oedran 65-74 oed (Ffigur 71). Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod gan wirfoddoli lawer o fuddion llesiant fel helpu i leihau unigedd cymdeithasol ymysg y grwpiau oedran hyn a'r rhai mewn cymunedau mwy gwledig, a bod gwerth cymdeithasol gwirfoddoli'n llawn mor bwysig â'r effaith economaidd.

**Ffigur 71: Canran y bobl sy'n gwirfoddoli 2016/17 yn ôl grŵp oedran (Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 28)**




## Manteision iechyd gwirfoddoli

Yn wir, ceir cydnabyddiaeth eang o fanteision iechyd gwirfoddoli, yn gorfforol ac yn seicolegol. Yn ei *Adroddiad Blynyddol ar y Trydydd Sector*, cydnabu Llywodraeth Cymru fod "gwirfoddolwyr yn aml yn cael cymaint allan o'r profiad â'r unigolion a'r cymunedau y maen nhw'n eu helpu”[44]. Yn y pen draw, mae gwirfoddoli yn ymwneud â helpu eraill a chael effaith ar eich llesiant. Dangosir tri o fanteision cyffredin gwirfoddoli yn Ffigur 72.


**Ffigur 72: Manteision iechyd cyffredin gwirfoddoli**




## Elusennau


Mae elusennau hefyd yn weithgar iawn yn y sir – o'r 8,157 o elusennau cofrestredig yng Nghymru, mae 327 wedi'u cofrestru yng Ngheredigion. Fesul 1,000 o’r boblogaeth, mae nifer yr elusennau cofrestredig yn y sir yn 4.48 a'r trydydd uchaf ledled Cymru, y tu ôl i Bowys (6.00) a Gwynedd (4.61), gweler Ffigur 73.

**Ffigur 73: Pob elusen a gofrestrwyd yng Nghymru - graddfa fesul 1,000 o'r boblogaeth**




Mae Ffigur 74 yn dangos dadansoddiad o'r elusennau sy'n gweithredu yng Ngheredigion yn ôl pwrpas. Mae'n dangos bod dros un o bob pump (21%) o'r holl elusennau sy'n gweithredu yn y sir yn ymwneud ag *addysg a hyfforddiant*, ac yna *dibenion elusennol cyffredinol* (12%), *y celfyddydau/diwylliant/treftadaeth/gwyddoniaeth* (10%) a *chwaraeon amatur* (9%). Adlewyrchir y tueddiadau hyn ar draws rhanbarth y Canolbarth a De-orllewin Cymru ac ar draws Cymru gyfan.

**Ffigur 74: Nifer yr elusennau sy'n gweithredu yng Ngheredigion yn ôl pwrpas**




## Edrych ymlaen

Gall fod yn anodd lliniaru'r heriau i'r trydydd sector yn y dyfodol, yn rhannol am fod rhai yn dibynnu ar gyllid yn y dyfodol drwy grantiau neu ffynonellau eraill, ac yn rhannol oherwydd mai rôl llawer o sefydliadau elusennol a gwirfoddol yw cefnogi eraill sy'n wynebu argyfwng ar adeg benodol yn hytrach na chefnogaeth tymor hwy. Fodd bynnag, mae'n amlwg y bydd newidiadau mawr yn y dyfodol a fydd yn effeithio ar y trydydd sector a'r unigolion a'r cymunedau y mae'n eu cefnogi. Dangosir rhai o'r rhai mwyaf gweledol ac amlwg o'r rhain yn Ffigur 75. Ceir trafodaeth fanwl Ceir trafodaeth fanwl gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru am yr heriau sy'n wynebu'r trydydd sector yng Nghymru[45].

O ystyried y rôl y mae'r trydydd sector yn ei chwarae yn yr economi leol a chenedlaethol, mae angen i'r gwaith o ddatblygu strategaeth economaidd newydd ar gyfer y sir ystyried y rôl y mae'r sector yn ei chwarae o ran darparu gwasanaethau a chymorth i drigolion, a hefyd y rôl uniongyrchol mae'n chwarae yn yr economi leol drwy'r rheini a gyflogir ac sy'n gwirfoddoli yn y sector.

**Ffigur 75: Heriau'r dyfodol i'r trydydd sector yng Nghymru**



## Ôl-nodiadau

[1] "Awdurdodau lleol Cynnyrch Domestig Gros rhanbarthol". Ar-lein: https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/datasets/regionalgrossdomesticproductlocalauthorities. ONS: Llundain, Rhagfyr 2019.
[2] Diffinnir Canolbarth a De-orllewin Cymru fel Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Powys ac Abertawe.
[3] CACI Paycheck 2019.
[4] "Proffil Marchnad Lafur Ceredigion". NOMIS. Ar-lein: https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157390/report.aspx#supply. Adalwyd: 22-1-20.
[5] Neil Ward, 'England Should Embrace its Rural Economy', Financial Times, 5 Mehefin 2008.
[6] "Lampeter: Students and town fear for campus' future". BBC. Ar-lein: https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-48747118. Wedi'i adalw: 21-1-20.
[7] "Student Money Survey 2019". Save the Student. Ar-lein: https://www.savethestudent.org/money/student-money-survey-2019.html. Wedi'i adalw: 05/01/2020.
[8] Mae Prifysgol Aberystwyth yn amcangyfrif y bydd y costau byw rhwng £660 y mis yn y sector preifat i £682 y mis mewn preswylfeydd Prifysgol. "Costau byw arferol yn Aber". Ar-lein: https://www.aber.ac.uk/cy/student-support/prospective-students/typical-costs/ Wedi'i adalw: 05/01/2020.
[9] "E-commerce and ICT activity, UK: 2018". Ar-lein: https://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/itandinternetindustry/bulletins/ecommerceandictactivity/2018. Wedi'i adalw: 17-1-20.
[10] "E-commerce and ICT activity, UK: 2018" Ar-lein: https://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/itandinternetindustry/bulletins/ecommerceandictactivity/2018. Wedi'i adalw: 17-1-20.
[11] "Wales: Our National Network". Adroddiad Tech Nation 2019. Ar-lein: https://technation.io/about-us/national-network/wales/. Wedi'i adalw; 27-1-20.
[12] https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-37010376
[13] Pantelis Koutroumpis. The economic impact of broadband: evidence from OECD countries April 2018 https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0025/113299/economic-broadband-oecd-countries.pdf
[14] "Cysylltu'r gwledydd 2018 Cymru". Ofcom. Ar-lein: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0023/130829/Adroddiad-Cysylltur-Gwledydd-2018-Cymru.pdf
[15] "Broadband availability". Ofcom. Ar-lein: https://checker.ofcom.org.uk/broadband-coverage. Wedi'i adalw: 20-1-20.
[16] "Cysylltu'r gwledydd 2019 Cymru". Ofcom. Ar-lein: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0032/186476/2019-cysylltur-gwledydd-cymru.pdf. Wedi'i adalw: 17-1-2020.
[17] "Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion". Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. Aberaeron: 2017. 60.
[18] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/housing/datasets/meanpricepaidbylowerlayersuperoutputareahpssadataset47
[19] https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-39859608
[20] https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/placeofworkbylocalauthorityashetable7
[21] Ffynhonnell: home.co.uk. Wedi'i adalw: 24-1-20.
[22] Ffynhonnell: home.co.uk. Wedi'i adalw: 24-1-20.
[23] Ffynhonnell: home.co.uk. Llywodraeth Cymru. Wedi'i adalw: 24-1-20.
[24] Mae strategaeth tai lleol Ceredigion "Tai i Bawb" ar gael yn: https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/tai/strategaeth-dai/
[25] Ffynhonnell: CACI Paycheck 2019.

[26] "Ffyniant i Bawb; y strategaeth genedlaethol". Llywodraeth Cymru. 2. Ar-lein: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol-datganiad-llesiant-2017.pdf. Wedi'i adalw: 21-1-20

[27] "Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion". Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. Aberaeron, 2017. 6.

[28] "Headline estimates of personal well-being from the Annual Population Survey (APS): by counties, local and unitary authorities, year ending March 2012 to year ending March 2019". Yr ONS 2019. Ar-lein. Wedi'i adalw: 6-3-20.

[29] Dangosydd canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru. Ar-lein: https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau. Wedi'i adalw: 6-3-20.

[30] Ar-lein: http://www.euro.who.int/en/health-topics/environment-and-health/pages/news/news/2016/11/who-report-shows-urban-green-spaces-deliver-multiple-health-benefits. Wedi'i adalw: 13-2-20.

[31] Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19. Ar-lein: https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2018-i-mawrth-2019. Wedi'i adalw: 12-2-20.

[32] Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19. Ar-lein: https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2018-i-mawrth-2019. Wedi'i adalw: 12-2-20.

[33] Our Planet Matters: Climate change explained. Ar-lein: https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-24021772. Wedi'i adalw: 14-2-20.

[34] Our Planet Matters: Climate change explained. Ar-lein: https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-24021772. Wedi'i adalw: 14-2-20.

[35] Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19. Ar-lein: https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2018-i-mawrth-2019. Wedi'i adalw: 12-2-20.

[36] Mae'r map yn dangos cynrychioliad o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 ar lefel ACEHI. Hawlfraint a hawl cronfa ddata y Goron 2019. Arolwg Ordnans 100017916.

[37] "Gwerth Ychwanegol Crynswth yn ôl ardaloedd NUTS3 a diwydiant yng Nghymru". Statscymru. Ar-lein: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Regional-Accounts/Gross-Value-Added-GDP/gross-value-added-gdp-gva-by-welshnuts3areas-industry. Wedi'i adalw: 27-1-20

[38] "Energy in the UK". Energy UK. Ar-lein: https://www.energy-uk.org.uk/energy-industry/energy-in-the-uk.html. Wedi'i adalw: 22-1-20

[39] "Energy in the UK". Energy UK. Ar-lein: https://www.energy-uk.org.uk/energy-industry/energy-in-the-uk.html. Wedi'i adalw: 22-1-20. 19.

[40] Biliau trydan domestig blynyddol cyfartalog rhanbarthau'r DU (QEP 2.2.3). Ar-lein: https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/annual-domestic-energy-price-statistics. Wedi'i adalw; 27-1-20.

[41] "Amcangyfrifon Tlodi Tanwydd ar gyfer Cymru: 2018". Yr ONS 2019. Ar-lein: https://llyw.cymru/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-ar-gyfer-cymru-2018. Wedi'i adalw: 27-1-20.

[42] "Ymchwiliad i Dlodi Tanwydd". Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar-lein: http://www.senedd.assembly.wales/documents/s95760/FP%2009%20Ceredigion%20County%20Council.html?CT=2. Wedi'i adalw: 27-1-20.

[43] Dangosydd – hamdden – canran y bobl sy'n gwirfoddoli (dangosydd FG 28). Statscymru. Ar-lein: https://statscymru.llyw.cymru. Wedi'i adalw: 4-2-20.

[44] "Cynllun trydydd sector Cymru: Adroddiad blynyddol 2017/18". Llywodraeth Cymru. 2019. 28.

[45] "Llunio eich dyfodol – tueddiadau'r dyfodol: Goblygiadau i'r trydydd sector yng Nghymru". Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). 2016.